

Proffiliau enghreifftiol dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn addysg grefyddol

Canllawiau ychwanegol

- Cynulleidfa** Athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3; CYSAGau; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus.
- Trosolwg** Mae'r deunyddiau hyn yn cyd-fynd â'r ddogfen *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 – Negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu* ac yn darparu proffiliau o waith dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 sy'n cynnig enghreifftiau o'r safonau a nodir yn y disgrifiadau lefel, ac yn dangos sut i ddefnyddio disgrifiadau lefel wrth lunio barn ynghylch y lefel sy'n cyd-fynd orau ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Camau i'w cymryd** Dylai'r CYSAGau adolygu cynlluniau a'r gweithgareddau dysgu yn eu meysydd llafur cytûn lleol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a pharatoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu
- Dogfennau cysylltiedig** *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 – Negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011); *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009); *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*; *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*; *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig; Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Defnyddio'r deunyddiau hyn	4
Adran 1	
Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2	7
Elin – nodweddion o Lefelau 2 a 3	9
Jamal – nodweddion o Lefelau 2, 3 a 4	18
Rhys – nodweddion o Lefelau 2, 3 a 4	29
Meinir – nodweddion o Lefelau 4 a 5	40
Adran 2	
Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	49
Sam – Lefel 4	51
Catrin – Lefel 5	62
Jack – Lefel 7	72
Atodiad 1	
Rhaglenni Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol Cyfnodau Allweddol 2 a 3	82
Atodiad 2	
Disgrifiadau lefel enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol	86
Adnoddau defnyddiol	88
Cydnabyddiaethau	89

Cyflwyniad

Mae'r rhaglenni astudio yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn nodi'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, ac maen nhw'n darparu'r sail sy'n eich galluogi chi, fel athrawon, i gynllunio gwaith dysgu ac addysgu. Mae'r rhaglenni astudio wedi eu rhannu'n ddwy adran, sef Sgiliau ac Ystod. Mae'r adran Sgiliau yn rhestru'r sgiliau y dylid eu datblygu mewn pwnc, ac mae'r adran Ystod yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny.

Mae asesu ffurfiannol parhaus – asesu **ar gyfer** dysgu – yn hanfodol i addysgu da. Drwy'r asesiadau y byddwch yn eu gwneud wrth addysgu, byddwch yn casglu gwybodaeth helaeth am gryfderau eich dysgwyr, a'r meysydd mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw fel eu bod, gyda'ch cymorth chi, yn medru datblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth wneud hynny, bydd modd iddyn nhw weld ble maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod targedau a gweithio tuag atyn nhw, a darganfod pryd neu os llwyddwyd i'w cyrraedd. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith dysgwr, fel y nodir mewn adborth ffurfiannol, ac maen nhw felly'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid yw disgrifiadau lefel yn dargedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws ehangder y rhaglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Drwy nodi disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc, gall disgrifiadau lefel helpu i lywio eich gwaith cynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd tystiolaeth o waith asesu ar gyfer dysgu yn dangos ble mae angen mwy o amser i atgyfnerthu'r dysgu ac yn dangos pryd bydd dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Efallai y byddwch am gadw rhywfaint o dystiolaeth fel y gallwch drafod gwaith a dilyniant dysgwr gyda nhw a/neu gydweithwyr neu rieni/warcheidwaid. Er hynny, nid yw cadw cofnodion sy'n ddiangen o gymhleth neu gadw tystiolaeth fanwl am bob dysgwr yn ofyniad statudol.

Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw eich helpu i lunio barn grynodol a chytbwys am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Nid yw disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio i'w defnyddio i bennu lefel ar gyfer darnau unigol o waith nac i gynhyrchu data bob hanner tymor neu bob tymor. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod allweddol y byddwch wedi casglu digon o wybodaeth am berfformiad dysgwr ar draws ystod o waith, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'ch galluogi i lunio barn mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel.

Hwyrach y bydd rhai dysgwyr wedi cyrraedd lefel uwch mewn rhai agweddau ar y gwaith nag agweddau eraill, ac na fydd un disgrifiad lefel ar ei ben ei hun yn cyd-fynd yn union â'u perfformiad. Mae hynny i'w ddisgwyl, ac mae'r ystod o waith dysgwyr unigol sydd wedi ei gynnwys yn y deunyddiau hyn yn dangos sut i lunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr dan amgylchiadau o'r fath. I lawer o ysgolion/adranau, mae datblygu eu proffiliau dysgwyr eu hunain wedi bod o gymorth i safoni barn ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r proffiliau hynny hefyd yn helpu i gynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau pan maen nhw'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau pan fo angen.

Efallai bydd CYSAG, trwy ei gynhadledd maes llafur cytûn, yn argymhell bod yr ysgolion yn adrodd ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Pan fydd barn yn cael ei llunio ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, dylech benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n **cyd-fynd orau** â pherfformiad dysgwr. Y nod yw cael barn gytbwys:

- sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth am y modd mae'r dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu ym mherfformiad y dysgwr dan sylw
- a gaiff ei chymharu â disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel y tybir ei bod fwyaf priodol yw'r lefel sy'n cyd-fynd orau'n gyffredinol â pherfformiad y dysgwr yn y targed cyrhaeddiad.

Mae deilliannau addysg grefyddol wedi'u hysgrifennu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1.

Defnyddio'r deunyddiau hyn

Mae'r canllawiau ar gyfer addysg grefyddol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 wedi'u gosod mewn ddwy ddogfen ar wahân.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i rannu'n ddwy adran.

Adran 1 sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 2. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Adran 2 sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Mae'r ddogfen gysylltiedig *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 – Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu* ar gael fel copi caled, ar y CD-ROM sy'n cyd-fynd ac ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Mae'r ddogfen wedi'i rannu'n ddwy adran.

Adran 1 sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn addysg grefyddol.

Adran 2 sy'n tynnu sylw at ddisgwyliadau a dilyniant mewn addysg grefyddol.

Gallwch gyfeirio at y ddau llyfr hyn pan fyddwch am:

- adolygu eich cynlluniau a'ch gweithgareddau dysgu
- ystyried y safonau a amlinellir yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*
- cydweithio ag athrawon eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r disgrifiadau lefel
- paratoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- datblygu eich proffiliau dysgwr eich hun
- cynorthwyo'r gwaith pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi'u cynnwys ar ddiwedd y llyfryn hwn fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i roi'r cwricwlwm diwygiedig a'i drefniadau asesu cysylltiedig ar waith. Mae'r gyfres yn cynnwys:

- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* – canllawiau cyffredinol ar roi'r cwricwlwm newydd ar waith
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – sy'n cynnwys arweiniad ynghylch dilyniant mewn sgiliau
- *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol*
- *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu* (ar y wefan yn unig)
- canllawiau penodol ar gyfer addysg grefyddol, holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, addysg bersonol a chymdeithasol, a gyrfaoedd a'r byd gwaith
- *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed*
- *Pobl, Credoau a Chwestiynau: Addysg grefyddol i blant 3 i 7 oed*
- *Manteisio i'r eithaf ar asesu, 7–14* (ar y wefan yn unig).

Adran

1

Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng
Nghyfnod Allweddol 2

Rhaid i addysg grefyddol gael ei haddysgu yn unol â maes llafur cytûn lleol. Defnyddiwyd y ddogfen *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* i arwain y gwaith o ddatblygu meysydd llafur cytûn.

Nid yw'n ofynnol llunio barn diwedd cyfnod allweddol mewn addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2, ond efallai bydd y maes llafur cytûn lleol yn argymhell hynny. Er hynny, bydd gwybod am nodweddion y disgrifiadau lefel hyn yn eich helpu i adnabod cryfderau'r dysgwyr, yn ogystal â'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn eich helpu i gynllunio ar gyfer dilyniant.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn esbonio'r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

Elin

Nodweddion o Lefelau 2 a 3

Mae Elin yn ddysgwyr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Elin nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Elin ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Elin yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 2 a 3, ond mae'n dangos nodweddion o Lefel 2 yn bennaf.

Roedd athro Elin wedi cynllunio i'r dosbarth Blwyddyn 6 ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol 'Pam mae Iesu a'i atgyfodiad yn bwysig i Gristnogion?' Rhoddodd y dysgwyr sylw i bob un o elfennau'r tri sgil craidd drwy ystyried yr hyn rydym yn ei wybod am Iesu a'r dylanwad mae ei fywyd wedi'i gael ar bobl.

Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys archwilio testunau dethol o'r Testament Newydd, archwilio gwybodaeth am y credoau, dysgeidiaethau ac arferion sy'n gysylltiedig â materion yn ymwneud ag awdurdod a dylanwad. Mae cynllun dysgu ar gyfer y flwyddyn yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau drwy bob agwedd ar yr Ystod.



Ymchwilio | Beth ydych chi'n ei wybod am Iesu?

Dechreuodd y dysgwyr ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol 'Beth ydych chi'n ei wybod am Iesu?'. Roedd y gweithgaredd hwn yn cynnig ambell gipolwg i'r hyn roedd Elin yn ei wybod am y dysgeidiaethau sy'n gysylltiedig ag Iesu, megis 'Roedd Iesu Grist yn mynd i llefydd ac yn dweud storiâu am Duw'; 'Mair a Joseph ydi mam a tad Iesu'; 'Mae Iesu wedi marw ar diwrnod pasg'; 'Roedd Iesu wedi marw ar y croes'. Mae'r crynodeb hwn yn dangos gallu i *alw* gwybodaeth *i gof* a *chyfathrebu'n syml rai o'r credoau crefyddol sylfaenol* (nodwedd o Lefel 2).

Pan ofynnwyd i'r dysgwyr beth hofffen nhw wybod am Iesu, dywedodd Elin, 'Hoffwn i wybod sut oedd Iesu Grist wedi dod yn ol yn fyw ar ol iddo marw' ac 'Ydy Iesu Grist yn bachgen neu merch?'. Yma, mae hi'n *gofyn cwestiynau am agweddau ar grefydd* (nodwedd o Lefel 2) ond nid yw wedi cynnig atebion i'r cwestiynnau a osodwyd. Mae hi'n *gofyn cwestiynau dryslyd weithiau*, felly nid yw hi'n dangos nodweddion o Lefel 2 yn gyson.

Dyma rhyddu i'w gwybod am Iesu Grist

Ryddu i'w gwybod roedd Iesu Grist yn mynd i lefydd ac yn dweud storiâu am Duw. Mair a Joseph ydi mam a tad Iesu. Mae Iesu wedi marw ar diwrnod pasg. Roedd Iesu wedi marw ar y croes.

Hoffwn i wybod sut oedd Iesu Grist wedi dod yn ol yn fyw ar ol iddo marw.

Ydy Iesu Grist yn bachgen neu merch?

Ymchwilio | Beth ddigwyddodd ym medydd Iesu?

Cafodd dysgwyr gopi o'r paentiad o fedydd Iesu gan Piero della Francesca ac ar ôl i'r athro adrodd y stori, gofynnodd i'r dysgwyr egluro beth ddigwyddodd ym medydd Iesu a sut byddai pob cymeriad wedi teimlo. Ar wahân i ddweud bod y golomen yn bresennol 'i ddweud fod Duw yn edrych ar ôl o' nid yw Elin yn darparu gwybodaeth am y bedydd ei hun. Yn hytrach, mae hi'n cynnig ymateb personol drwy awgrymu, *mewn termau syml, pam y mae agweddau ar grefydd yn bwysig i rai pobl* (nodwedd o Lefel 2). Mae Elin yn awgrymu bod Iesu yn dweud 'Rydw i yn teimlad ychydig yn ofnys, ond dwi'n gwybod fod i yn gwneud peth dda'. Mae hi'n mynd yn ei blaen i awgrymu byddai Ioan Fedyddiwr yn dweud 'Rydw i yn teimlo yn ofnus ond rydw i wedi practisio ac rydw i yn teimlo honored fod Iesu eisiau fi i gwneud o'.



Colomen

Yna i ddweud fod Duw yn edrych ar ôl o.

Ioan Fedyddiwr


Rydw i yn teimlo yn ofnus ond rydw i wedi practisio ac rydw i yn teimlo honored fod Iesu eisiau fi i gwneud o.

Iesu

Rydw i yn teimlo ychydig yn ofnus ond dwi'n gwybod fod fi wedi gwneud peth da.

Ymchwilio | Sut gwnaeth Iesu ddylanwadu ar ei ddilynwyr?

Paratôdd yr athro gardiau chwarae rôl i bob grŵp o ddysgwyr gael actio dameg y mab afradlon. Cymerodd Elin rôl y mab ieuengaf ac aeth ati, mewn termau syml, i ddisgrifio'r, prif bwyntiau a nodwyd yn y dysgeidiaethau o'r Testament Newydd, e.e. 'Roedd yn teimlo ei fod wedi gwastraffu ei arian, roedd yn teimlo ei fod wedi gadael ei dad i lawr ac roedd cywilydd arno'. Pan ofynnwyd i Elin awgrymu ar lafar pa gredoau mae'r stori yn gyfleu wrth Gristnogion, dywedodd wrth y dosbarth fod y mab afradlon yn cynrychioli person drwg a oedd yn derbyn ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le a'i fod wedi newid o ganlyniad. Mae ei gwaith yma yn dangos ei bod hi'n gallu *disgrifio rhai credoau crefyddol syml* a sut mae'r rhain yn *effeithio ar fywydau credinwyr* (nodweddion o Lefel 3).



Yna gofynnwyd i bob grŵp o ddysgwyr ddewis dameg arall a pharatoi poster gwybodaeth i gyfleu prif bwyntiau'r stori mewn ffordd cryno. Mae Elin yn archwilio stori'r ffŵl cyfoethog o Luc 12 ac yn paratoi ei phoster ei hun. Yn y poster hwn, mae'n awgrymu 'doedd y ffŵl ddim yn meddwl am neb heb law am ei hun' ac mae'n mynd yn ei blaen i awgrymu 'dydi bod yn gyfoethog ddim mor arbennig a hynni'. Nid yw'n rhoi unrhyw fanylion am y stori, ond mae'n ceisio 'cyfathrebu'n syml rai o'r dysgeidiaethau . . . sylfaenol' (nodwedd o Lefel 2).



Ymchwilio | Beth ddigwyddodd i Iesu yn ystod yr Wythnos Sanctaidd?

Er mwyn cofnodi digwyddiadau'r Wythnos Sanctaidd, defnyddiodd yr athro Daflen Weithgareddau 1A o Ddeunyddiau Asesu Dewisol Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 2: Y Pasg (ACCAC, 2004). Yn ei gwaith ysgrifenedig, mae Elin yn *galw i gof ac yn cyfathrebu'n syml rai o'r dysgeidiaethau . . . sylfaenol* (nodwedd o Lefel 2) ond er iddi gael cyfle i rannu rhai o'r credoau cysylltiedig ynglŷn â pham mae digwyddiadau yn bwysig i gredinwyr, nid yw'n gwneud hynny. Mae'r datganiadau mae hi'n eu gwneud yn disgrifio digwyddiadau'r Wythnos Sanctaidd, ac mae'n defnyddio dyfyniadau o'r Testament Newydd gan gynnwys geiriau allweddol, e.e. 'bradychu'.

Beth ddigwyddodd yn ystod yr Wythnos Sanctaidd?

Pan aeth Iesu i mewn i Jerwsalem ar Sul y Blodau... roedd pawb yn y dref yn gweddli 'Hosana' ac yn taffu daib palmwydd a defnyddiau ar y ffordd i Iesu gael cerdded arwnt. Roeddlynt yn gweddli 'Haleliwia, dyma Brenin yr Iddewon!

Yn ystod y dyddiau cyn y Swper Olaf, fe fu Iesu'n... roedd un o ddisgyblion Iesu wedi ei bradychu. Naeth Tiwdas cael arian am dweud wrth bobl ble roedd Iesu.

Ar ddydd Iau Cablyd, fe wnaeth Iesu...

gael y swper Olaf. Dywedodd Iesu wrth y disgyblion "Y bara ydy fy coff. Cofia fi" "Y gwir ydy fy coff. Wedd fo a cofia fi."

Dydd Gwener y Groglith, cafodd Iesu ei...

cario croes mawr, trwm sy'n y mynydd i pobl thri hoelion drwy fo ar y groes.

Ddydd Sul y Pasg, ymwelodd ffrindiau Iesu â'r bedd. Yna...

ar ôl cyrraedd, roedd y bedd ar agor a daeth Iesu nôl yn fyw.

Ymchwilio | Pam mae Iesu a'i atgyfodiad yn bwysig i Gristnogion?

Er mwyn sylweddoli'n llawn bwysigrwydd Iesu i Gristnogion, roedd yr athro'n annog y dysgwyr i nodi gweithgareddau sy'n digwydd yn y gymuned i ddangos ymrwymiad y rhai sy'n credu yn y ffydd Gristnogol. Roedd llawer o ddysgwyr yn rhannu'r gwaith drwy ddefnyddio cyflwyniadau graffigol a holiaduron gydag esboniadau ysgrifenedig. Pan ofynnwyd iddi rannu gwybodaeth â'r dosbarth, rhoddodd Elin gyflwyniad syml ar lafar a oedd yn rhoi cipolwg syml i'r hyn mae ei Nain yn ei wneud bob dydd Sul yn ei chapel lleol.

Pan ofynnwyd i Elin pam mae Iesu a'i atgyfodiad yn bwysig i Gristnogion, awgrymodd fod Cristnogion yn credu ei fod yn bwysig oherwydd 'Mae'n cael enwau grêt fel brenin yr Iddewon, a pan cyrhaeddodd Jerusalem roedd pobl yn gweiddi 'hosana' ac yn rhoi dail palmwydd ar y llawr. Roedd hwn yn dangos fod pobl yn credu yno fo', 'Mae pobl dal yn yfed gwin ac yn bwyta bara yn yr eglwys heddiw i gofio amdano.' Felly mae *credoau a dysgeidiaethau crefyddol sylfaenol* (nodwedd o Lefel 2) yn cael eu cyfleu yn bennaf, a dim ond mewn termau syml mae hi'n awgrymu bod yr *agweddau hyn ar grefydd yn bwysig* (nodwedd o Lefel 2) drwy ddweud bod dilynwyr yn credu yn Iesu ac yn ei gofio drwy ddathlu'r swper olaf. Er mwyn dangos nodweddion o Lefel 3, byddai disgwyl *disgrifiad o sut mae'r agweddau hyn* (megis y swper olaf a'r croeshoeliad) *yn effeithio ar fywydau credinwyr* (nodwedd o Lefel 3) drwy roi ychydig o wybodaeth ynghylch sut mae Cristnogion yn rhannu'r Cymun Sanctaidd neu'r ffordd mae Cristnogion yn rhoi eu bywydau i wasanaethu eraill ac ati.

roedd pawb yn y
chref yn gweiddi 'Hosana' ac yn taflu dail palmwydd
a defnyddiau ar y ffordd i Iesu gael cerdded
amrynt. Roeddylnt yn gweiddi 'Haleliuia', dyma Brenin yr
Iddewon!

Crynodeb

Mae proffil Elin yn dangos rhai nodweddion o Lefel 2 a Lefel 3 ond nodweddion Lefel 2 yn bennaf.

Yn gyffredinol, mae Elin yn dangos ei bod yn gallu gofyn cwestiynau sylfaenol iawn ynghylch y materion sy'n cael eu codi ond nid yw'n gwneud unrhyw ymgais i awgrymu atebion i'r cwestiynau ynghylch pam mae Iesu'n bwysig i Gristnogion. Mae'n gallu *galw i gof ac yn cyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion* (nodwedd o Lefel 2) sy'n cael eu harchwilio ond nid yw'n rhoi digon o ddisgrifiadau (a fyddai'n golygu crynodeb mwy systematig o ddigwyddiadau a syniadau). Ni roddwyd llawer iawn o gyfle ffurfiol i Elin gynnig ymateb personol. Er hynny, mae'n rhoi crynodeb o deimladau'r rhai sy'n bresennol ym medydd Iesu, ond yn gyffredinol nid yw'r crynodeb hwn yn cynnwys llawer o fanylion ac mae'n eithaf sylfaenol. Bydd Elin yn gyffredinol yn cyfathrebu mewn *termau syml ynghylch ei theimladau, ei gweithredoedd a'i barn hi ei hun a'r eiddo pobl eraill* (nodwedd o Lefel 2) a bydd yn *defnyddio geirfa grefyddol syml* (nodwedd o Lefel 2) megis 'bedydd', 'y swper olaf' a'r 'croeshoeliad'. Yn achlysurol (yn arbennig wrth ysgrifennu am yr Wythnos Sanctaidd) mae hi fel petai'n adnabod peth symbolaeth grefyddol ac mae'n gallu dehongli manylion y stori sy'n awgrymu gallai ddangos nodweddion o Lefel 3, o gael cymorth.

Y ffordd ymlaen

Yn gyffredinol, roedd yr athro'n teimlo gallai Elin fod wedi gwella ei hymatebion, o gael cymorth. Er enghraifft, gallai cwestiynau â ffocws a oedd yn gofyn iddi gynnig ei barn ei hun ynghylch y cwestiynau sylfaenol a godwyd fod wedi ei helpu i wella. Petai'r athro wedi darparu templed i Elin yn rhestru prif bwyntiau'r credoau a'r dysgeidiaethau, efallai byddai Elin wedi gallu disgrifio digwyddiadau a materion yn well. Er mwyn symud tuag at esboniadau, byddai angen gofyn cwestiynau 'Pam?' i Elin – er enghraifft, 'Pam mae bedydd Iesu yn bwysig i Gristnogion?', 'Pam oedd Iesu'n adrodd storiâu?', 'Pam mae'r storiâu hyn yn bwysig i Gristnogion heddiw?'. Er mwyn gwella ymhellach, byddai angen i Elin ddisgrifio sut mae agweddau ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr hefyd. Gallai'r athro fod wedi ei chynorthwyo â hyn drwy ddarparu set o gardiau yn nodi'r dylanwad mae Cristnogaeth yn ei gael ar fywydau credinwyr, yna gallai Elin osod y cardiau yn ôl yr amser, ymrwymiad ac effaith mae hi'n credu byddai pob gweithgaredd yn ei gymryd

mewn diwrnod, wythnos neu flwyddyn. Byddai hyn yn helpu Elin i ddeall faint o amser ac ymdrech mae eu hangen gan y crediniwr i gyflawni ei rwymedigaethau. Rhannodd Elin gipolwg o brofiadau ei Nain ond roedd ei sylwadau'n gyfyngedig ac nid oedden nhw'n egluro beth oedd yn digwydd yn y gwasanaethau i gael effaith ar fywyd ei Nain. Cafodd Elin gymorth i gynnig dehongliad o'r ystyr y tu ôl i'r storïau drwy gwestiynau â ffocws, ond nid yw hi'n dangos y ddealltwriaeth hon bob tro (e.e. yr Wythnos Sanctaidd). Er mwyn datblygu'r sgiliau hyn ymhellach, mae angen i Elin gael mwy o ymarfer o ran ateb cwestiynau 'Beth os . . . ?'.

Jamal

Nodweddion o Lefelau 2, 3 a 4

Mae Jamal yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.


Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Jamal nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Jamal ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Jamal yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 2 a 3 ond mae'n dangos nodweddion Lefel 3 yn bennaf.

Roedd dosbarth Jamal yn ymdrin â chwestiynau sylfaenol ynghylch sut mae crefydd yn dylanwadu ar hunaniaeth person. Wrth wneud hynny, roedden nhw'n archwilio Cristnogaeth, Hindŵaeth a Sikhiaeth, gan gynnwys ystyried Cristnogaeth a Hindŵaeth mewn cyd-destun rhyngwladol (Uganda ac India). Roedd y dosbarth eisoes yn gwybod llawer iawn am Gristnogaeth o Flwyddyn 5, ond roedden nhw'n dysgu am Hindŵaeth a Sikhiaeth am y tro cyntaf. Mae pob uned yn delio ag elfennau o'r tri sgil craidd ac roedd y cynllun dysgu ar gyfer y flwyddyn yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau drwy bob agwedd ar yr Ystod.

Roedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwiliad yn cynnwys ffotograffau o Gaerdydd, Uganda ac India, detholiadau o'r Testament Newydd, y Bhagavad Gita a'r Guru Granth Sahib, gwerslyfrau'n ymdrin â chredoau ac arferion yn gysylltiedig â hunaniaeth a pherthyn, ymweliadau â mannau addoli lleol a thafleuni gwybodaeth wedi'u symleiddio.

Ymchwilio | Pwy ydw i?



Gofynnwyd i'r dysgwyr ystyried ym mha ffyrdd maen nhw'n unigryw a beth sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd y gweithgaredd hwn yn sbardun i drafodaeth ac yn ffordd o osod yr olygfa, ac roedd yn gofyn am ymateb personol. Er nad oedd gofyn i'r dysgwyr grybwyll credoau, mae Jamal yn tynnu sylw at hyn wrth ddisgrifio pwy ydyw. Yn yr adran hon, mae'n *disgrifio'i weithrediadau a'i farn ei hun* (nodwedd o Lefel 2) a thrwy awgrymu bod 'hobi fi yn wahanol i pawb arall' (ac ar gyfer hyn, cadarnhaodd ei athrawes ei fod yn golygu'r gweithgareddau mae'n eu gwneud o ganlyniad i fynd i'r eglwys) mae'n *cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill* (nodwedd o Lefel 3).

Pa bethau eraill sy'n eich gwneud chi'n unigryw? Cofiwch am y teimladau!

Y pethau sy'n dangos bod i'n unigol iu bod fi'n credu yn Nuw ac mae hobi fi yn wahanol i pawb arall. Dw i adim yn hoffi bwyd gyflym ac rydw i'n dwli a cinio poeth. Rydw i'n chwarae i pêl droed. Y hoff tim pêl droed i fi iu ddinas Caerdydd. Rydw i'n dwli a chwarae pêl droed.

Beth yw'r pethau yn eich bywyd sy'n wirioneddol bwysig i chi?

Fy rheulu, pêl droed, prindiau, fy club pêl droed, a fy hoff tedi.

Ymchwilio | Sut mae crefydd yn dylanwadu ar hunaniaeth person? (Cristnogaeth)

Dangoswyd sleidiau PowerPoint i'r dosbarth o Gristion ifanc yng Nghaerdydd a Christian ifanc yn Uganda (yn byw mewn cartref gofal). Dywedodd yr athrawes wrth y dysgwyr am fywyd y ddau a sut mae crefydd yn effeithio ar eu hunaniaeth. Yn ei waith, mae Jamal yn *disgrifio rhai o'r credoau ac arferion crefyddol sylfaenol* (nodwedd o Lefel 3) mae'r ddau Gristion ifanc yn eu dilyn, e.e. mae'r ddau yn credu mewn Duw ac yn cymryd rhan mewn addoli/gweddio. Mae'n *disgrifio sut mae rhai o'r agweddau hyn . . . yn effeithio ar fywydau'r bobl ifanc* (nodwedd o Lefel 3) drwy ddisgrifio'r modd 'mae nhw'n mynd i'r eglwys, mae nhw'n dilyn gair Duw ac yn gweddio'.

Disgrifiwch ac eglurwch y gwahaniaeth rhwng y ddau blentyn.

Yn Uganda does dim dur glan i yfed, ac mae llyzdd yn nahand. Mae Emma yn byw gyda rhieni ond mae Patrick yn byw mewn cartref gofal. Mae Patrick yn ddauad iawn ac oherwydd hyn mae pobl yn anl ac yn dalu saluch ofnadwy. Mae Patrick am deffro a 5-30 yn y bore ac cyn ysgol mae e'n ymrochi, cael rwyd ac astudio'r Beibl. Mae athrawon yn 'trusto' Patrick achos mae'n rhw'n gadael ef i arwain y gwasanaeth yn y bore. Yn yr ysgol Emma mae athrawon gweithio yr ysgol o hyd.

Beth yw'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddau?

Mae Emma yn byw gyda rhieni cariadwl ond mae Patrick yn byw mewn cartref gofal.

Disgrifiwch ac eglurwch y pethau sy'n debyg rhwng y ddau blentyn yma.

Mae ddau o nhw yn Cwsnagon, mae nhw'n mynd i'r eglwys, mae nhw'n dilyn gair Duw ac yn gweddio. Mae'r ddau o nhw yn helpu yn y ty.

Beth fyddai'r plant yn ei ddweud yw'r tebygrwydd pwysicaf rhyngddynt nhw? Eglurwch eich dewis.

Mae'r ddau o nhw yn Cwsnagon ac yn credu bod Duw yn caru nhw achos mae nhw'n mynd i'r eglwys ac yn darllen y Beibl.



Rhoddwyd tasg i'r dysgwyr, sef rhoi darn yn adrodd stori o'r Testament Newydd, Ioan 15:1–17 yn y drefn gywir. Yna gofynnwyd i'r dysgwyr sut mae'r darn yn berthnasol i fywydau Patrick ac Emma. Drwy egluro bod y darn yn ymwneud â phobl yn 'bod yn dda fel y Samariad Trugarog yn y stori', mae'n *disgrifio rhai credoau a dysgeidiaethau sylfaenol* (nodwedd o Lefel 3).

Mae'n mynd yn ei flaen i awgrymu ffyrdd mae Patrick ac Emma yn dangos eu doniau fel aelodau o'r eglwys, 'Mae Patrick yn cymryd rhan yn y gwasanaethau ac yn helpu dysgu plant eraill . . . Mae Emma yn mynd i'r eglwys, yn cymryd rhan yn yr eglwys ac yn helpu casglu arian i bobl tlawd yn y byd'. Yn y disgrifiad hwn, mae'n rhoi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd mae bod yn aelod o eglwys yn *effeithio ar fywydau credinwyr* (nodwedd o Lefel 4).

Beth mae'r darn yn dweud am y canlynol?
Boncyff y goeden ffrwythau . . .
yw Iesu
Canghennau . . .
yw gangen
Canghennau nad ydyn nhw'n ffrwytho . . .
dyw nhw ddim yn rhan o'r eglwys
Mae'r canghennau angen y boncyff er mwyn tyfu ffrwythau oherwydd . . .
Achos mae boncyff yn rhoi dur a bwyd i planhigion i gyd. Pan mae boncyff yn dod yn rhydd o goeden dyw ffrwythau ddim yn tyfu. Mae eglwys yn helpu Cystroegion rhanu ffrwythau nhw (anrhegion) Dyle Cystroegion a pobl eraill bod yn dda fel y Samariad Trugareg yn y stori neu rhoi popeth lan, hyd yn oed ei bwydau nhw, i helpu pobl eraill.
Pa 'doniau' mae Patrick ac Emma yn cynnig fel aelodau o'r eglwys . . .
Mae Patrick yn cymryd rhan yn y gwasanaethau ac yn helpu dysgu plant eraill. Mae e'n gweithio i tyfu bwyd ac yn helpu glanhau y cartref. Mae Emma yn mynd i'r eglwys yn cymryd rhan yn yr eglwys ac yn helpu casglu arian i pobl blaund yn y byd.



Mae'r athrawes yn efelychu bedydd babi i ddangos sut mae pobl yn dod yn aelodau o'r eglwys a gofynnir i'r dysgwyr egluro'r hyn sy'n digwydd a pham mae symbolau penodol yn cael eu defnyddio. Mae Jamal yn rhoi *disgrifiad o rai o'r arferion crefyddol sylfaenol* (nodwedd o Lefel 3) sy'n ymwneud â bedydd, ond nid yw'n rhoi unrhyw eglurhad o'r credoau, y dysgeidiaethau na'r symbolaeth sy'n sail iddyn nhw.

Mae'r baban yn gwisgo yn dillad gwyrn ac mae rhieni bedydd yn addo earych ar ol y baban. Mae Ficer yn dodi dwr ar pen y baban yn cael canwyll.

Ymchwilio | Sut mae crefydd yn dylanwadu ar hunaniaeth person? (Hindŵaeth/Sikhiaeth)

Darllenodd yr athrawes stori am Anuj (sy'n Hindŵ) i'r dosbarth. Yna rhoddodd fersiwn wedi'i symleiddio o'r stori iddyn nhw i dynnu sylw at y prif bwyntiau. Aethon nhw ati i gyfateb geiriau Hindŵaidd â'r diffiniadau priodol yna ateb cwestiynau ynghylch sut roedd crefydd Anuj yn dylanwadu ar ei fywyd. Yn y dasg hon, mae Jamal yn *disgrifio rhai credoau crefyddol sylfaenol* (nodwedd o Lefel 3), e.e. mai 'Ganesh yw Duw Anuj ac fe'i addolir ger cysegr'. Yn yr un modd, mae'n dweud bod Anuj am fod mor gariadus â Krishna ac mor doeth â Ganesh. Mae fel petai'n deall cysyniad ailymgnawdoliad, sy'n gymhleth, ond nid yw'n mynd yn ei flaen i egluro pam mae'r gred hon yn bwysig i Hindŵaidd.

Dychmygwch mai Anju ydych chi. Ysgrifennwch eich ymateb i'r cwestiwn 'Beth sy'n eich gwneud chi'n chi?'.

Pe byddai Anju fyddai i'n credu yn Hinduwaeth. Fy hoff duw yw Ganesh ac rwy'n addoli ein duw yn y cysegr. Crefydd ni yw'r un henach yn y byd ac rwy'n addoli trwy ~~addoli~~ ddawnsio.



Beth oedd Anju yn ei olygu pan ddywedodd 'Rwyf eisiau bod mor gariadus a doeth â Ganesh'?


Pan mae Anuj yn tyfu lan mae e'i eisiau bod cariadus fel Krishna a gall fel Ganesh. Does neb yn gallu bod mor cariadus a mor gall.

Beth oedd Anju yn ei olygu pan ddywedodd 'Rwyf eisiau bod mor gariadus a doeth â Ganesh'?


Mae'r duwiau yn purysig, ac mae ailymgnawdoliad yn purysig. Os i chi'n cas i arfelaidd dylech chi'n ddiol nol fel arfelaidd achos sylch byw.

Dyweddod ymwelydd Hindŵaidd (a oedd yn arfer byw yn India) wrth y dysgwyr am ei bywyd cynnar a'r ffordd mae ei chredoau wedi dylanwadu ar ei dewisiadau mewn bywyd. Dangosodd ffotograffau o gysegr ac efelychodd weddïau puja i'r dysgwyr gael profiad ohonyn nhw. Defnyddiodd y dysgwyr ddetholiad o ffotograffau a roddodd yr ymwelydd a'r athrawes iddyn nhw, ac aethon nhw ati i baratoi cyflwyniad PowerPoint i ddangos sut roedd crefydd yn dylanwadu ar fywyd Mrs Vyas. Yn ei gyflwyniad PowerPoint, mae Jamal yn *disgrifio rhai o'r credoau ac arferion crefyddol sylfaenol* (nodwedd o Lefel 3) megis 'roedd hi a'r teulu yn gweddio ac yn gwneud puja yn cysegr y cartref' ac 'roedd ei theulu yn mynd i'r mandir pob diwrnod'. Mae'n *rhwi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd y mae'r agweddau hyn yn effeithio ar fywyd Mrs Vyas* (nodwedd o Lefel 4) – er enghraifft, mae'n nodi ei bod yn addoli bob dydd, ei bod yn llysieuwr a'i bod yn darllen ei Llyfr Sanctaidd. Er hynny, nid yw'n egluro pam mae'r rhain yn bwysig na sut maen nhw'n cysylltu â'r credoau a'r dysgeidiaethau, megis ailymgnawdoliad.





Cafodd y dysgwyr ymarfer 'ffair wybodaeth' i'w wneud lle rhoddwyd gwybodaeth iddyn nhw am fod yn aelod o amrywiaeth o gymunedau crefyddol lleol. Dewisodd Jamal ddysgu mwy am y gymuned Sikh ac aeth ati i baratoi taflen wybodaeth er mwyn gwneud cyflwyniad i'r dosbarth. Mae ei daflen yn cynnwys *rhai credoau ac arferion crefyddol sylfaenol* (nodwedd o Lefel 3) sy'n ymwneud â bod yn Sikh, e.e. eu bod yn llysiuwyd, yn addoli yn y Gurdwara ac yn cadw'r 5 K. Mae'n mynd yn ei flaen i ddisgrifio mewn termau syml iawn sut mae pobl yn dod yn Sikhiaid Khalsa ac mae'n egluro bod Sikhiaid yn gwisgo'r 5 K i ddangos eu bod yn credu yn Nuw. Mae'r gwaith hwn i gyd yn dangos nodweddion o Lefel 3.



Ymchwilio | Sut ydych chi'n credu mae crefydd yn dylanwadu ar hunaniaeth person?

Pan ofynnwyd i Jamal am ymateb personol ynghylch ei farn a barn pobl eraill yn ei ddosbarth am y gwahanol safbwyntiau crefyddol, aeth ati i gyfweld ei ffrindiau, ond dim ond ei farn ei hun mae'n ei gofnodi, lle mae'n awgrymu 'rydw i yn meddwl fod popeth mae gwahanol grefyddau yn credu yn pwisig'. Ar gyfer y gwaith hwn, nid yw'n darparu unrhyw sylwadau am ei farn ef na barn pobl eraill felly mae'n dangos nodweddion sy'n cyd-fynd yn fwy â Lefel 2 gan ei fod yn *siarad mewn termau syml am ei deimladau ei hun . . . a theimladau pobl eraill*.

Crynodeb

Mae proffil Jamal yn dangos rhai nodweddion o Lefel 2, Lefel 3 a Lefel 4, ond nodweddion Lefel 3 yn bennaf.

Yn gyffredinol, mae Jamal yn darparu gwybodaeth sylfaenol am y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sy'n awgrymu gwaith sy'n nodweddiadol o Lefel 3. Wrth ymateb i'r cwestiwn sylfaenol ynghylch y modd mae crefydd yn dylanwadu ar hunaniaeth, mae'n *trafod y cwestiynau sy'n codi o ymchwilio agweddu ar grefydd ac yn disgrifio sut mae rhai o'r agweddu hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr* (nodweddion o Lefel 3). Mae'n rhannu ei ymatebion ei hun drwy ddweud ei fod yn credu yn Nuw ac mae'n dangos y ffyrdd mae crefydd yn dylanwadu ar bobl eraill drwy dynnu sylw at eu hymrwymiad i addoli, dathlu gwyliau, darllen llyfrau sanctaidd ac ymddwyn mewn ffyrdd penodol sy'n dangos *sut mae crefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr* (nodwedd o Lefel 3). Gan fod y cwestiwn sylfaenol yn ymwneud mor agos â'r effaith mae crefydd yn ei chael ar fywydau credinwyr, mae'r enghreifftiau penodol mae'n ei rhoi yn dangos rhai nodweddion sylfaenol Lefel 4. Er hynny, dim ond cyfleu ei farn a'i weithredoedd mewn termau syml mae ei ymatebion personol, ac mae hyn yn arwydd o nodweddion o Lefel 2. Mae Jamal yn arddangos sgiliau cyfathrebu sy'n nodweddiadol o Lefel 3 yn yr ystyr ei fod yn *dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol*. Mae'n dangos hyn yn ei ddealltwriaeth fod y darn o'r Beibl am y Wir Winwydden yn cynrychioli'r eglwys. Mae peth o'r eirfa grefyddol wedi cael ei rhoi gan yr athrawes, ond mae'n dangos ei fod yn dechrau ymgodymu â deall y termau cymhleth hyn, e.e. y cysyniad o ailymgnawdoliad.

Y ffordd ymlaen

Er mwyn cynorthwyo Jamal i ddatblygu sgiliau mewn perthynas â chwestiynau sylfaenol, mae angen mwy o gyfleoedd arno i ofyn cwestiynau sy'n ymwneud â'r gwaith a chynnal ymchwil personol i allu ymateb i rai o'i gwestiynau, gan ddatblygu sgiliau datrys problemau. Byddai taflen ysgogi neu ddiagram cynllunio o fantais iddo yn hyn o beth (e.e. diagram pry cop neu fap cysyniad) er mwyn gallu cofnodi ei ymchwiliadau yna defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer tasg werthuso benodol. Gellir helpu Jamal i ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud â'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol drwy roi mwy o gyfle iddo egluro pam mae pethau'n digwydd, pam gwneir penderfyniadau neu pam mae dysgeidiaethau a/neu gredoau penodol yn arwain person i ymddwyn mewn ffordd benodol. Bydd y sgil hwn yn gwella os rhoddir cyfleoedd iddo ddatblygu'r sgiliau hyn drwy ofyn cwestiynau 'Pam?' iddo. Wrth ystyried ymatebion personol, mae angen rhoi mwy o gyfleoedd iddo wneud sylwadau am safbwyntiau pobl eraill a'u cymharu â'i safbwyntiau ei hun. Gellid gwneud hyn drwy roi mwy fyth o ymarfer iddo o ran casglu data, cynnal arolygon yn y dosbarth a thrafod safbwyntiau mewn grwpiau trwy weithgaredd 'plws (wedi gweithio), minws a diddorol' (PMD)¹. Mae angen rhoi tasgau â ffocws iddo hefyd er mwyn sicrhau bod ei sylwadau'n berthnasol.

Rhys | Nodweddion o Lefelau 2, 3 a 4

Mae Rhys yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei athro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Rhys nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Rhys ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Roedd proffil Rhys yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 2, 3 a 4, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 4 yn bennaf.


Roedd dosbarth Rhys yn ymdrin â chwestiynau sylfaenol ynghylch gofal a chyfrifoldeb am y byd naturiol a phethau byw ac wrth wneud hynny, roedden nhw'n ystyried sut a pham mae'r crefyddau'n dangos ymrwymiad i ecoleg a chynaliadwyedd. Mae'r uned yn adeiladu ar wybodaeth gyffredinol am Gristnogaeth, Islam, Iddewiaeth a Hindŵaeth a ddysgwyd ym Mlwyddyn 5. Mae pob uned yn delio ag elfennau o'r tri sgil craidd ac roedd y cynllun dysgu ar gyfer y flwyddyn yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau drwy bob agwedd ar yr Ystod.

Roedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwiliad yn cynnwys ffotograffau o'r byd naturiol, detholiadau o'r Testament Newydd, y Torah, y Qur'an, a thestunau Hindŵaidd. Roedden nhw'n defnyddio gwerslyfrau a thafleuni gwybodaeth wedi'u symleiddio yn ymdrin â chredoau ac arferion yn gysylltiedig â chyfrifoldeb am y byd a phethau byw. Roedd y dosbarth yn ymweld â mannau addoli lleol a lleoedd o harddwch amgylcheddol hefyd.

¹ Edward de Bono

Ymchwilio | Pam dylai pobl ofalu am y byd naturiol a phethau byw?


Dangoswyd sleid PowerPoint i'r dysgwyr yn dangos holl ryfeddodau byd natur a gofynnwyd iddyn nhw feddwl am eiriau i ddisgrifio'r harddwch a'u teimladau am bwysigrwydd natur. Sylwadau Rhys ar gyfer y wal syniadau oedd fod y byd yn 'prydferth'. Mae ganddo ymwybyddiaeth glir o'r hyn a fydd yn digwydd os nad ydym yn gofalu am y byd hefyd.



Rydym yn byw
mewn byd
Prydferth

Byd bach, ond
llawer o
amrywiaeth

Os nad ydyn ni yn edrych ar ôl y byd . . .



Pan ofynnwyd y cwestiwn sylfaenol 'Pam dylai pobl ofalu am y byd naturiol a phethau byw?' i Rhys, aeth ati i ymchwilio mewn gwerslyfrau. Yn ei ymatebion am ei agwedd ei hun ac agwedd pobl grefyddol tuag at y byd naturiol, mae'n dangos tystiolaeth ei fod yn cymryd camau i ofalu am y byd. Mae ei ymchwil yn dangos bod Hindŵiaid a Mwslimiaid yn barod i gymryd camau i ofalu am y byd a phethau byw. Mae hyn yn dangos tystiolaeth ei fod wedi trafod ei ymateb ei hun ac eraill i gwestiynau am y . . . byd o'u cwmpas a chrefydd (nodwedd o Lefel 4).

Ar ôl edrych ar y cyflwyniad PowerPoint sy'n dangos rhai o ryfeddodau natur, ystyriwch y canlynol.

Taflen weithgareddau 1

Pam dylai pobl ofalu am y byd?

Dylai pobl ofalu am y byd achos os na fyddwn ni yn edrych ar ôl y byd bydd llygredd, llifogydd a bydd Plant a Phobl ifanc yn colli eu cartrefi.

Beth ydych chi'n ei wneud i helpu i gadw'r byd naturiol yn ddiogel?

Rwy'n rhoi buyd gwastraf yn y bin brown, cydaru ddim yn gwastrafu trydau, Rwy'n cerdded i'r ysgot, rwy'n planu llysiau yn ngerdd Mamgu.

Beth mae pobl grefyddol yn ei wneud i gadw'r byd naturiol yn ddiogel?

Mae Rajeev yn Hindw - Mae Rajeev yn credu mae hawl gan chwilehi Fyw,

yn 1973 Protestiodd hindwaidl yn erbyn y cwmnïau mawr odd yn torri coed Roeddent wedi cofleidio'r coed.

Mae'r Mwslimiaid yn credu mae Allah sydd wedi neud Pob Beth. Mae Mwslimiaid yn rhoi arian Or enw Zakah mewn bos elusen er mwyn rhoi dŵr glân i bobl.


Ymchwilio | Pam ei bod yn bwysig bod pobl grefyddol yn ymwneud ag amddiffyn y byd naturiol a phethau byw?

Cafodd Rhys gyfres o gardiau â detholiad o ddyfyniadau o ddysgeidiaethau/ffynonellau crefyddol a rhai eraill gyda datganiadau syml yn egluro ystyr bob dyfyniad. Roedd Rhys wedi paru'r dyfyniad â'r ystyr cyfatebol. Ar ôl cofnodi'r wybodaeth hon, aeth ati i ddefnyddio'r cardiau i nodi pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y crefyddau. Dewisodd baratoi poster gwybodaeth i ddangos beth mae tri o'r crefyddau'n ei feddwl am eu cyfrifoldeb am y byd naturiol². Dewisodd enghreifftio Hindŵaeth, Iddewiaeth ac Islam. Yn ei ddisgrifiad o Hindŵaeth, mae'n cyfleu'r syniad bod yr enaid yn rhan o bopeth ac oherwydd hyn 'mae rhaid edrych ar ôl popeth' ac mae'n *dechrau esbonio'r cred(oau)* Hindŵiaid (nodwedd o Lefel 4) ynghylch ailymgnawdoliad a charma. Mae'n gwybod bod gan Iddewon mezuzah yn eu tai ond nid yw'n egluro beth yw'r cysylltiad rhwng gweddio a chyfrifoldeb am y byd naturiol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd elusengarwch i Iddewon a Mwslimiaid. Yn hyn o beth, mae'n cynnig *enghreifftiau penodol o'r ffyrdd y mae'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr* (nodwedd o Lefel 4). Mae'n gweld bod y tair crefydd yn credu mai Duw yw creawdwr y byd ac felly mae'n *dechrau nodi'r hyn sy'n debyg rhyngddynt* (nodwedd o Lefel 4) ac mae'r poster yn gyffredinol yn nodi rhai gwahaniaethau, yn enwedig rhwng Hindŵaeth a'r ddwy grefydd arall.

Pan ofynnwyd i Rhys am ymateb personol ynghylch ei farn ef a barn pobl eraill yn ei ddsbarth am y gwahanol safbwyntiau crefyddol, mae'n mynd ati i gyfweld ei ffrindiau, ac mae'n cofnodi peth o'r wybodaeth. Wrth roi ei farn ei hun, mae'n awgrymu 'rydw i yn meddwl fod popeth mae gwahanol grefyddau yn credu yn bwysig'. Ar gyfer y gwaith hwn, nid yw'n darparu unrhyw sylwadau am ei farn ef na barn pobl eraill, felly mae'n dangos nodweddion sy'n cyd-fynd yn fwy â Lefel 2 gan ei fod yn cyfleu gwybodaeth sylfaenol wrth *siarad mewn termau syml am ei deimladau ei hun . . . a rhai pobl eraill*.

² Dewteronomiwm 6: 4–9. Mae'r Shema yn ddatganiad mai un Duw sydd ac yn orchymyn i garu Duw bob amser. Gellir ystyried Dewteronomiwm 11: 13–21 yn rhan o weddi'r Shema hefyd ac mae'n cyfeirio at greadigaeth Duw a'r modd mae Duw yn darparu bwyd a diod i bobl.

Beth mae gwahardd gwyddau yn ei gaelu am ein byd?



Mae enaid y dyn wedi symydl i'r Llydysyn yma.

Mae hwylio yn cerbyd bod angen cerbyd ar ôl Rheddi ar rwyng mae ddu wedi ceru byrd Rofraith

o Rofraith yn ddrwy byrd dy arand yn myd i Lygod.

Iddewinath

Seren Ddu



Dyma MezuZah



Tu mewn i'r Sigid mae na Paragraff ar saw thura efo gwrthymwr Duwal.



Tu mewn i'r MezuZah mae i'r Sigid



Mae sbectol yn cerbyd bod ebleu edrych ar ol a helpu Rofraith. Mae bawS dduon yma yn cael i'w rhoi. Peth dduwal. Mae ym bawS dduon Fies yndd.

Islam

Mae muslim yn cerbyd bod rhodd rhai aron ut ockes do. Yn am on yn yr Zakah



Mae muslim yn cerbyd bod ffech wach ceru y byrd a Rheddi sydd gwrth. Mae dym yn ddrwy byrd edun.

MY Gwrs ym llyfr sanctid y muser



Mae gan y muslim i'r o asiantdhuon ymwrth Rheddiawd

Rydde. yn maddid bod Rofraith mae gwahardd gwyddau yn ceru yn ddrwyg

Ymchwilio | Beth mae stori Noa yn ei ddweud?

Dangosodd yr athro i'r dosbarth fod stori gyfarwydd arch Noa yn bwysig yn y tair crefydd, ond am wahanol resymau. Wrth archwilio hyn, mae Rhys yn gallu *nodir hyn sy'n debyg ac yn wahanol* (nodwedd o Lefel 4) rhwng y dehongliadau ar gyfer y dysgeidiaethau a'r symbolaeth a rhai o'r credoau cysylltiedig, ond nid yw'n mynd yn ei flaen i egluro arwyddocâd y gwahaniaethau.

Taflen weithgareddau 2		
Beth mae gwahanol grefyddau'n credu yw'r ddwy brif neges a geir yn stori Noa?		
Iddewiaeth	Cristnogaeth	Islam
Edrych ar ôl yr amgylchedd. Mae Duw yn cadw ei addewid/	Mae Duw yn gwybod Pwy yw ffol da y byd. Mae Duw eisieu i ni edrych ar ôl y byd naturiol./	Os na byddent yn addoli Allah byddent yn cuel e cosbi. Mae rhaid Dewi'S Da yn lle'r drug./
Pam gwnaethoch chi ddewis y ddwy brif neges hyn yn lle rhai o'r negeseuon eraill?		
Iddewiaeth	Cristnogaeth	Islam
Dyma'r ddwy Bwysicaf Bwysicaf./	Dyma y rhai mwyaf amlwg./	Mae stori y Qur'an yn tampaid bach yn wahanol./
Pa symbolau a geir yn y storiâu, a beth yw eu hystyr ym mhob crefydd?		
Iddewiaeth	Cristnogaeth	Islam
Entus:-Mae hwn yn arwydd o gytundeb./	Colomen:-Mae nna yn gynnichioli'r ysbryd glân (grym Duw). Arch:-Edrych fel eglwys a cadw bawb yn ddiogel./	Llifogydd:- Symbol o gosb./

Ar ôl astudio gwaith 'Operation Noah', mae Rhys yn egluro ar lafar (gan weithio mewn paru) sut mae stori Noa yn berthnasol i'r byd heddiw, mae'n dweud 'Rydwi wedi darganfod bod yr enw 'Operation Noah' wedi dod o stori Noa. Rydw i yn deall stori Arch Noa yn well – fod rhaid i ni fihafio ac yn gallu helpu wrth ailgylchu'. Mae'n egluro bod 'Operation Noah' yn ffordd i Gristnogion ac unigolion eraill geisio sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r problemau sy'n wynebu'n planed. Mae Rhys yn egluro 'Mae Operation Noa yn gofalu am y byd natur, ac yr amgylchedd . . . achos dyma'r unig fyd sydd ganddyn nhw. Mae Duw wedi gwneud byd yn saff a glân a nawr mae mewn perygl fawr'. Yn ei enghraifft, mae'n egluro beth mae Ymgyrch Arch Noa yn ceisio'i wneud ac mae'n ymroi yn llwyr (drwy ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir) i ystyried y rheswm pam byddai Cristnogion am ymwneud â'r sefydliad hwn ac mae hyn yn dangos enghraifft benodol o'r ffordd y mae stiwardiaeth yn effeithio ar fywydau credinwyr (nodwedd o Lefel 4).

Taflen weithgareddau 3

Beth mae 'Operation Noah' yn ei wneud?

Mae operation Noa yn gofalu am y byd Natur, ac yr amgylchedd.

Pam mae Cristnogion yn credu bod yr arch yn ffordd dda o helpu pobl i feddwl am achub y byd naturiol a phethau byw?

Roedd Noa wedi adeiladu arch er mwyn achub yr anifeiliaid a Noa. Mae rhai Plact wedi datfon Arch Noa origami i'r Prif weinidog i ddweud wrtho i godw'r byd yn fyw. Mae Cristnogion yn ymdechu bod Sêl Noa yn gofalu edrych ar yr anifeiliaid a byd natur.

Pam dylai Cristnogion ddangos gofal a chonsŷrn am y byd naturiol a phethau byw? (Yn eich ateb dylech feddwl am y gwahanol bethau a gaiff eu dysgu yn y Beibl neu'r dathliadau sy'n digwydd.)

Achos Dymar ynig byd sydd ganddyni. Mae Duw wedi gwneud byd saff a glân a nawr mae mewn perygl fawr. Mae Cristnogion yn meddwl bod Duw am iddyni edrych ar yr y . . . ddaen mae Duw wedi gwe. Mae Cristnogion yn dathli . . . mewn gwrsioeth diolch ganach.

Ymchwilio | Ym mha ffyrdd eraill mae pobl grefyddol yn ymboeni am y byd naturiol a phethau byw?

Trwy weithgaredd 'ffair wybodaeth', roedd y dysgwyr yn dysgu am ffyrdd mae pobl grefyddol yn ymboeni am y byd a sut mae'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion yn dylanwadu ar eu bywydau. Yn ystod y gweithgaredd, mae Rhys yn *disgrifio* rhai o'r arferion crefyddol yr *ymchwilir iddynt* (nodwedd o Lefel 4). Mae Rhys yn egluro ar lafar wrth yr athro 'Mae Cristnogion yn meddwl mai Duw sy bia'r byd ac mae Hindŵs yn meddwl mai enaid sy bia Duw a dyna pam maen nhw'n gofalu am y byd', ond nid yw'n cofnodi hyn ar ei daflen weithgareddau. Er hynny, yn gyffredinol, mae ei athro'n teimlo ei fod wedi egluro'r rheswm neu'r arferion crefyddol er nad ydyn nhw wedi'u cofnodi'n ffurfiol.

Dathliadau neu arferion sy'n dangos cyfrifoldeb at y byd naturiol

Tasg ymchwil - dewch o hyd i wybodaeth am y canlynol:

Mae gŵyl y cynhaeaf yn ddathliad Cristnogol i ddangos ...

Diolch i Dduw am ffurwythau, ar byd.

Mae Cristnogion yn credu bod hyn yn bwysig oherwydd ...

Taw Duw sydd wedi nesu y byd, ac mae'n gwstais i ddaud diolch.

Chipko oedd pan oedd menywod Hindŵaidd yn ceisio achub y coed trwy ... ei cofleidio.

Mae Hindŵiaid yn credu bod hyn yn bwysig oherwydd ...

Mae gan goed hawl i fyw. Achos mae nhw yn gartrefi i anifeiliaid.

Ymchwilio | Pam dylai pobl ofalu am y byd naturiol a phethau byw?

Ar ôl gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas â'r cwestiwn sylfaenol hwn, mae Rhys yn crynhoi drwy ddarparu ymateb personol. Yn ei ymateb, mae'n *siarad mewn termau syml am ei weithrediadau ei hun a rhai pobl eraill* (nodwedd o Lefel 2). Yn gyffredinol, nid yw'r athro'n credu bod hyn yn wir adlewyrchiad o'i allu, yn enwedig wrth ddefnyddio dulliau llafar i drafod materion pwysig.

Rwy'n ceisio helpu i ofalu am y byd naturiol a phethau byw trwy ...

Peidio taflu sbwriel, ailgylchu, rhoi bwyd i'r adar.

Rwy'n gwneud hyn oherwydd ...

i gadw'r byd y lân yn brydferth ac yn fyw.

Mae hyn yr un peth / yn wahanol i'r bobl grefyddol yr wyf wedi dysgu amdanynt oherwydd ...

Dim torni; coed. fellu rwy'n edrych ar ôl y Byd



Crynodeb

Mae proffil Rhys yn dangos rhai nodweddion Lefel 2, Lefel 3 a Lefel 4, ond nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

Yn gyffredinol, mae Rhys yn dangos ei fod yn gallu ymateb i'r cwestiynau sylfaenol a godir, ond nid yw'n barod eto i gynnal digon o waith ymchwil a fyddai'n ei alluogi i gyfiawnhau canlyniadau ei ymchwiliadau a'i brofiadau. Yn aml, mae'n rhoi disgrifiadau o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a astudiwyd ac weithiau mae'n rhoi esboniadau. Mae'r diffyg eglurhad hwn yn ei atal rhag gwneud rhai o'r cysylltiadau mae eu hangen ar Lefel 5, felly mae hwn yn faes mae angen iddo ei ddatblygu. Mae'r athro'n teimlo bod ei ymatebion personol wedi'u datblygu'n eithaf da pan fydd yn eu rhoi ar lafar, ond maen nhw'n tueddu i fod yn ffeithiol pan fydd yn eu cofnodi. Mae hwn yn faes lle mae angen iddo ddatblygu ymhellach gan fod ei sgiliau cyfathrebu yn gyffredinol wedi datblygu'n eithaf da. Gall ddefnyddio ystod o iaith grefyddol o wahanol grefyddau'n briodol, e.e. enaid, gorchmynion, zakat ac ati. Gall hefyd adnabod symbolau crefyddol. Ceir tystiolaeth arbennig o hyn yn ei ddealltwriaeth o'r symbolaeth yn stori Noa.

Y ffordd ymlaen

Mae athro Rhys yn ymwybodol ei fod yn hoffi cynnal ymchwiliadau a thrafod pethau â'i gyfoedion, ond nid yw bob amser yn treulio amser yn cofnodi'i ymatebion yn ysgrifenedig. Er mwyn datblygu'r sgil hwn ymhellach, mae'r athro'n mynd i roi mwy o gyfle i Rhys gofnodi'i ymatebion yn electronig ac yna rhoi amser iddo eu hysgrifennu. Er mwyn ei helpu i atgyfnerthu ei sgiliau ar Lefel 4 a symud ymlaen i'r lefel nesaf, byddai'n fuddiol iddo gael amrywiaeth o ffynonellau gallai roi trefn arnyn nhw yn ôl eu dilysrwydd yna gallai ateb cwestiynau 'Pam?' gan ddefnyddio'r ffynonellau hyn. Byddai'r math hwn o weithgaredd yn arbennig o ddefnyddiol wrth iddo ddefnyddio dyfyniadau o lyfrau sanctaidd. Drwy gyfateb dyfyniadau o lyfrau sanctaidd â rhestrau o gredoau ac arferion gan ystod o wahanol gredinwyr, gallai ddatblygu esboniadau ynghylch pam mae credinwyr penodol yn meddwl neu'n ymddwyn mewn ffyrdd penodol. Yn ei dro, gallai'r math hwn o weithgaredd ei helpu i gyfiawnhau ei ymchwiliadau i gwestiynau sylfaenol, ei helpu i wneud y cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion a chefnogi ei eglurhad ynghylch sut mae ei deimladau, ei weithredoedd a'i farn yn debyg neu'n wahanol i rai pobl eraill.

Meinir

Nodweddion o Lefelau 4 a 5

Mae Meinir yn ddysgwyr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Meinir nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Meinir ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Meinir yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 4 a 5, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 5 yn bennaf.

Roedd athrawes Meinir wedi cynllunio i'r dosbarth Blwyddyn 6 ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol 'Beth yw maddeuant?'. Roedden nhw'n ystyried y cwestiwn hon o safbwynt Iddewiaeth a Christnogaeth. Rhoddodd y dysgwyr sylw i bob un o elfennau'r tri sgîl craidd drwy ystyried yr ŵyl Iddewig Rosh Hashanah a thrwy edrych ar brofiadau trasig a oedd wedi rhoi prawf ar allu dau berson crefyddol i faddau.

Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys archwilio testunau dethol o'r Testament Newydd a'r Torah ac archwilio gwybodaeth am y credoau ac arferion sy'n gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â maddeuant. Mae'r cynllun dysgu ar gyfer y flwyddyn yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau drwy bob agwedd ar yr ystod.

Ymchwilio | Pam mae maddeuant yn bwysig i Iddewiaeth?

Dechreuodd y dysgwyr ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol 'Beth yw maddeuant?' drwy archwilio ei arwyddocâd i Iddewiaeth, yn enwedig drwy ŵyl Rosh Hashanah. Rhoddodd yr athrawes enghreifftiau i'r dosbarth o rai dysgeidiaethau sy'n gysylltiedig â maddeuant mewn Iddewiaeth ac roedd y dosbarth yn trafod y credoau gellid eu cysylltu â'r dysgeidiaethau hyn. Ar ôl gwneud ychydig o waith ymchwil personol ychwanegol, mae Meinir (gan siarad yn y person cyntaf) yn awgrymu bod Iddewon, yn ystod Rosh Hashanah, yn 'edrych dros y flwyddyn diwethaf ac yn meddwl am yr holl weithredoedd gwael rydyn wedi gwneud. Pethau sy'n groes i rheolau Duw a'r rheolau yn y Torah.

Rydym wedyn yn gofyn i Dduw am faddeuant am y pethau gwael rydym wedi gwneud rydym yn edifarhau i Dduw. Rydym yn gobeithio y bydd Duw yn maddai i ni ac rydym yn gobeithio y bydd y flwyddyn nesaf yn un dda'. Yn y gwaith hwn, mae hi'n gweld bod angen maddeuant ar Iddewon am dorri cyfreithiau Duw (a gaiff eu nodi yn y dysgeidiaethau crefyddol) ac mae'n awgrymu bod Iddewon yn credu bod rhaid iddyn nhw edifarhau (teimlo'n flin am yr hyn maen nhw wedi'i wneud) er mwyn ennill y maddeuant hwn. Mae hyn yn dangos bod Meinir yn dechrau *gwneud cysylltiadau rhwng y credoau a dysgeidiaethau* (nodwedd o Lefel 5).



Wrth drafod arferion crefyddol Rosh Hashanah mae'n darparu'r ystyr ar gyfer y rhai sy'n ymwneud yn bennaf â'r flwyddyn newydd yn hytrach nag â'r berthynas rhwng yr ŵyl a maddeuant. Er enghraifft, nid yw'n cyfeirio at Iddewon yn gofyn i deulu a ffrindiau am faddeuant yn ystod y deg diwrnod rhwng Rosh Hashanah ac Yom Kippur. Nid yw'n cyfeirio chwaith at Tashlich sef arfer pan fydd Iddewon yn puro eu hunain o'u pechodau mewn modd symbolaidd drwy daflu briwsion bara i ffwrdd (sy'n cynrychioli eu pechodau). Mae'r ffaith ei bod wedi cyfeirio at symbolaeth Rosh Hashanah yn dangos ei bod hi'n *dechrau esbonio arferion crefyddol* (nodwedd o Lefel 4) sy'n cael eu cynnal yn draddodiadol yn ystod Rosh Hashanah, ond nid yw'n creu'r cysylltiadau yn gyson rhwng yr arferion a nodwyd a'r credoau a'r dysgeidiaethau sy'n gysylltiedig â maddeuant.

Annwyl Lucy,

Heddw'r ydych chi'n datlu Rosh Hashana sef dedrau blwyddyn newydd yr Iddewon. Rydych chi'n edrych dros y flwyddyn diwethaf ac yn meddwl am yr holl weithredoedd gwael rydych chi'n wedi gwneud. Pethau sy'n gwas i rheolau Duw a'r rheolau yn y Torah. Rydych chi'n weld yn gofyn i Dduw am fuddaant am y pethau gwael rydych chi'n wedi gwneud rydych chi'n edifarhan i Dduw. Rydych chi'n gobeithio y bydd Duw yn maddai i ni ac rydych chi'n gobeithio y bydd y flwyddyn nesaf yn un dda.

Mae'r gŵyl Rosh Hashana ar ddiwedd mis Medi i ddechrau mis Hydref. Mae diwedd y flwyddyn ble mae'r lleuad.

Mae Rosh Hashana yn bwysig oherwydd eiddo bod ni fel Iddewon lisiâu plesio Duw ac felly mae'n bwysig i ni ofyn am fuddaant. Os ydych chi'n teimlo'n euz gan fy mod i wedi gwneud rhywbeth drwg dwi'n meddwl bod gofyn i Dduw am fuddaant yn gwneud i mi deimlo'n llawer gwell.

Mae yna sawl symbol sy'n bwysig i'r ŵyl Rosh Hashana fel Bara Cylch, sy'n dangos bod y flwyddyn yn dedrau eto ac yn rhelio'n llyfn mewn cylch. Mae Pomgranaad yn bwysig gan bod traddodiad bod gan Tomgranaad 613 hedyn un am bob rhedol Iddewig. Rydych chi'n bwrw bwrwydd melyn fel mel er mwyn dedrau'r flwyddyn yn fela a gobeithio am flwyddyn melyn. Mae'r tŷ yn llawn canhwylau i ddangos goluni tragwyddol Duw. Rydych chi'n hala cardiau arbennig Rosh Hashana i fy ffrindiau arbennig er mwyn dymuno blwyddyn newydd dda.

Rydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am yr ŵyl ac felly rydych chi'n ddarllen y Torah sy'n llawn gwybodaeth diddorol am y byd Iddewig. Efallai ydych chi'n i'r Synagog a holi am yr ŵyl yn fana. Mae'n ŵyl diddorol iawn a dwi'n siwr dy fod chi'n cytuno.

Rydych chi'n gobeithio ydych chi'n gylwed genych chi yn fana am un o'r gŵyliau Cristnogol chi, dwi'n siwr bod chi'n gŵyliau chi yn un mŷr diddorol a'r rhai ni.

Ymchwilio | Pam mae maddeuant yn bwysig i Gristnogaeth?

Rhannodd yr athrawes nifer o ddysgeidiaethau Iesu â'r dosbarth a gofynnodd iddyn nhw gyflwyno ystyr un o'r dysgeidiaethau mewn ffordd wreiddiol, e.e. drwy chwarae rôl, creu poster, rhoi cyflwyniad, ysgrifennu creadigol ac ati.

Hannah: Ydych chi'n cofio rhoies i benthg arian i ti wythnos yn ôl? Allai gael y arian nol oherwydd dwi eisiau prynu gêm newydd?

Rhian: Does dim arian gyda fi ar y funud oherwydd dwi'n casglu arian i brynu arheg penblwydd mam a dwi wedi defnyddio dy arian i brynu esgidiau newydd. Elli di aros tan y penwythnos?

Hannah: Wel os mae mam ti yn sâl elli di gael fwy o amser.

Rhian: Diolch!

Rhian: Mae rhaid i fi gael yr arian fenthyges di o fi ddoe oherwydd mae mam yn sâl a dwi eisiau prynu arheg.

Lois: Does dim arian gyda fi ar y funud oherwydd mae dad wedi gadael gartre ac mae mam yn brwydro.

Rhian: Mae rhaid i fi gael yr arian nawr!!!

Lois: Ond bydd dim arian i ginio mis hyn!

Rhian: Does dim ots da fi!

Hannah: Beth sy'n digwydd fan hyn? Roeddet ti eisiau i fi rhoi fwy o amser i ti ond dwyt ti ddim yn fodlon rhoi fwy o amser i Lois. Rho'r arian nol i fi nawr. Os oeddet ti ddim yn gallu dangos maddeuant i rhywun arall dwi ddim yn fodlon rhoi maddeuant i ti. Mae Iesu yn dweud i faddau rhywun saith deg saith waith ond rhaid i ti ddangos cyfrifoldeb am dy weithrediadau.

Defnyddiodd Meinir stori'r gwas anfaddeugar o Matthew 18: 21–35. Yn ei dehongliad o'r naratif, mae'n disgrifio yn ei geiriau ei hun beth ddigwyddodd ac mae'n mynd yn ei blaen i egluro'r hyn mae'r naratif yn ei olygu o ran maddeuant, 'Mae Iesu yn dweud i faddau rhywun saith deg saith waith ond mae rhaid i ti ddangos cyfrifoldeb am dy weithrediadau'³.

³ Mae hyn yn awgrymu dylid maddau'n rhwydd i'r rhai sy'n gofyn am faddeuant ac i'r rhai sy'n dangos trugaredd tebyg i eraill.

Mae'n parhau i ddangos ei dealltwriaeth o faddeuant Cristnogol wrth egluro sut mae dau Gristion adnabyddus, Julie Nicholson a Gee Walker, wedi dehongli dysgeidiaeth Iesu. Yn ei hymateb ar ôl clywed am eu profiadau, mae Meinir yn awgrymu 'Yn fy marn i rydw i'n credu fod y bobl a laddwyd ei mab yn Gristion gryf iawn. Ar ôl iddi wynebu trasiedi . . . Rydw i hefyd yn credu fod hi'n Gristion tebyg iawn i Iesu oherwydd pan laddwyd ef ar y groes fe maddeuodd i'r bobl a oedd yn ei ladd. Mae'r person hyn [Gee Walker] yn rhoi esiampl da i bawb yn ein cymdeithas'. Yn yr ymateb hwn, mae'n dangos ei bod yn gallu defnyddio mwy nag un ddysgeidiaeth grefyddol i archwilio'r cysyniad anodd hwn ac wrth wneud hynny, mae'n dangos bod Iesu ei hun yn enghraifft o faddeuant a efelychir gan Gristnogion heddiw. Yn yr adran hon o'r gwaith, mae'n dangos ei bod yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion a astudir, yn ogystal â dangos ei bod yn gallu disgrifio'r effaith y credoau hyn ar fywydau credinwyr (nodweddion o Lefel 5).

Yn fy marn i rydw i'n credu fod y fam a faddeuodd y bobl a laddwyd ei mab yn Gristion gryf iawn. Ar ôl iddi wynebu trasiedi o'i fab yn cael ei ladd roedd hi'n drist iawn. Ond y ffaith ei bod hi'n gallu sefyll yn gadarn a cario ymlaen gyda'i ffurfd yw'r peth sy'n synnu fi fwyaf. Rydw i hefyd yn credu fod hi'n Gristion tebyg iawn i Iesu oherwydd pan laddwyd ef ar y groes fe maddeuodd i'r bobl a oedd yn ei ladd. Mae'r person hyn yn rhoi esiampl da i bawb yn ein cymdeithas.

Rydw i'n deall fod mam y ferch a laddwyd ar Orffennaf 11fed, wedi bod yn drist ar ôl i'r ferch marw yn y bomiau yn Llundain ond rwy'n credu gall hi seisio fod yn gadarn a cario ymlaen gyda'i ffurfd. Ond dydw i ddim yn credu fod hi'n syniad da i stopio ei waith fel gweinidog gan fod y gwaith yn gallu ei helpu.

Ymchwilio | Beth yw maddeuant?

Yn y gweithgaredd olaf, mae'r athrawes yn gofyn i'r dysgwyr ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol 'Beth yw maddeuant?' a mynegi ymateb personol. Wrth ystyried pam ei bod yn bwysig i Dduw faddau i Iddewon yn ystod Rosh Hashanah mae'n egluro bod hyn 'oherwydd eu bod yn credu bod Duw yn eu barnu nhw ac yn penderfynnu beth fydd eu dyfodol'. Yn y crynodeb hwn, mae fel petai'n cyfeirio at Yom Kippur, lle mae Iddewon yn cael eu barnu am eu gweithredoedd. Mae'n mynd yn ei blaen i ddweud 'Dylai pobl edifarhau am fod yn gas i bobl eraill, ymddwyn yn wael, peidio a gwrando ar oedolion, e.g. athrawon. Os nad ydych yn edifarhau mae eich perthynas â Duw yn difetha'. Yn rhan olaf y frawddeg hon yn enwedig, mae hi'n cyfiawnhau safbwynt crefyddol sydd wedi'i ddylanwadu gan ei gwybodaeth am Iddewiaeth a'i gwybodaeth am Gristnogaeth a stori'r gwas anfaddeugar. Drwy weld bod perthnasoedd a chyfrifoldeb am weithredoedd yn dylanwadu'n gryf ar faddeuant, mae hi'n dangos ei bod yn gallu *mynegi ac yn cyfiawnhau syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol* (nodwedd o Lefel 5) er nad yw hyn yn cael ei gynnal yn ei gwaith.

Ei hymateb personol oedd 'Yn fy marn i dylem faddai i'r rhan fwyaf o bobl. Dyle ni ddim faddai i bawb, fel pobl sy'n lladd eraill. Os mae'r pobl sy'n lladd eraill yn lladd eto nid oes pwynt maddau, iddynt oherwydd nid ydyn nhw wedi edifarhau yn wir'. Os yw hyn yn cael ei gyfuno â'r sylwadau a ddyfynnwyd uchod, yna mae Meinir fel petai'n *esbonio mewn termau syml sut mae ei theimladau ei hun . . . yn wahanol i rai pobl eraill* (nodwedd o Lefel 4) yn hytrach na *sut mae ei theimladau . . . yn effeithio ar ei bywyd hi* neu ar fywydau pobl eraill (nodwedd o Lefel 5).



Pam mae pobl yn edifarhau?
Mae pobl yn edifarhau oherwydd eu bod nhw eisiau i Dduw faddai iddynt am y pethau drwg maent wedi'u wneud. Mae nhw hefyd eisiau i Dduw faddai eu bod yn bobl dda.
Pam mae Iddewon yn edifarhau yn ystod Rosh Hashanah?
Mae Iddewon yn edifarhau yn ystod y Rosh Hashanah oherwydd mae'n ddechrau'r flwyddyn. Mae nhw'n edifarhau am y pethau mae nhw wedi'u wneud drwy'r flwyddyn. Mae nhw'n gobeithio am flwyddyn well.
Pam, yn eich barn chi, mae'n anodd edifarhau?
Mae'n anodd edifarhau oherwydd eu bod hi'n anodd, weithiau, dweud eich bod wedi gwneud rhywbeth drwg. Efallai bod ganddych chi gyffwrnach nad ydych chi am ddweud.
Yn eich barn chi, am beth ddylai pobl edifarhau?
Dylai pobl edifarhau am fod yn gas i bobl eraill, ymddwyn yn wael, peidio a gwrandao ar oedolion e.g. strawon. Os nad ydych chi yn edifarhau mae eich perthynas â Duw yn difetha.
Beth yw maddeuant?
Maddeuant yw pan mae rhwng yn maddai i rhwng arall. Maddai yw pan mae rhwng yn gwneud rhywbeth drwg ac yna mae rhwng arall yn dweud nad oes eto ganddynt ei bod wedi gwneud hynna.
Pam mae'r Iddewon yn credu ei fod yn bwysig bod Duw yn maddau iddynt yn ystod Rosh Hashanah?
Mae'r Iddewon yn credu ei fod yn bwysig bod Duw yn maddau iddynt oherwydd eu bod yn credu bod Duw yn eu barnu nhw ac yn penderfynu beth fydd eu dyfodol.
Yn eich barn chi a ddylem faddau i bawb?
Mae pobl yn maddai oherwydd na fyddent ni fyddai unrhyw un yn ffuridiau ac, siwr o fod, fe fyddai yna fwy o rhyfelon yn y byd.

Crynodeb

Mae proffil Meinir yn dangos rhai nodweddion Lefel 4 a Lefel 5, ond nodweddion Lefel 5 yn bennaf.

Yn gyffredinol, mae Meinir yn dangos ei bod yn gallu creu'r cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan mai dyma yw prif ffocws y gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar ŵyl benodol. Mae hi'n dangos ei bod yn gallu mynegi syniadau a barn am y cwestiynau sylfaenol sy'n cael eu codi, e.e. 'Beth yw maddeuant?'. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ŵyl ac wrth ddeall hyn, mae'n dangos dealltwriaeth o'r materion cysylltiedig, e.e. perthnasoedd, cyfrifoldeb ac edifeirwch (teimlo'n flin a gofyn am faddeuant) ac wrth wneud hynny yn defnyddio amrywiaeth o eirfa cymhleth. Mae ei dealltwriaeth o iaith symbolaidd yn bennaf i'w gweld yn ei disgrifiad o'r eitemau symbolaidd a ddefnyddir yn Rosh Hashanah, ond hefyd yn ei dealltwriaeth o'r angen i edifeirwch gyd-ddigwydd gyda maddeuant. Nid yw Meinir yn rhoi ymateb personol sy'n nodi bydd yr ŵyl (yn enwedig y rhan lle mae pob person yn gorfod mynd at rywun maen nhw wedi gwneud cam â fe a gofyn am faddeuant) yn cael effaith ar eu bywydau. Nid yw ychwaith yn mynd i'r afael â sut gallai maddeuant, neu ddiffyg maddeuant, effeithio ar fywydau Gee Walker a Julia Nicholson a gallai'r syniad o Dduw sy'n maddau effeithio ar sut mae pobl grefyddol yn byw eu bywydau hefyd. Felly yn yr ymateb personol, mae angen iddi wneud mwy o waith er mwyn dangos nodweddion Lefel 5.

Y ffordd ymlaen

Yn gyffredinol, roedd yr athrawes yn teimlo gallai Meinir fod wedi gwella ei hymateb personol petai mwy o gwestiynau penodol a threiddgar wedi cael eu gofyn iddi a phetai hi wedi cael mwy o gyfleoedd i ateb cwestiynau 'Beth os . . . ?' a fyddai'n ei helpu i ddatrys problemau. Er enghraifft, gellid fod wedi gofyn iddi beth os byddai Julia Nicholson yn parhau yn ficer, ond yn dal heb faddau – a fyddai hyn wedi achosi problemau, neu *beth* os yw rhywun yn edifarhau ond yn parhau i ymddwyn yn ddrwg? Er mwyn symud yn nes at ddisgwyliadau Lefel 6, byddai angen iddi fod wedi gwneud mwy o waith ar yr ŵyl, yn enwedig y berthynas rhwng Rosh Hashanah ac Yom Kippur, a chysylltu'r rhain â'r dysgeidiaethau a ddefnyddir wrth addoli a'r credoau ynghylch maddeuant a barn. Byddai gwybodaeth ddyfnach ynghylch y credoau, dysgeidiaethau ac arferion wedi ei helpu i ddeall cysyniadau maddeuant, edifeirwch a barn yn well. Er mwyn datblygu ymhellach o ran y cwestiynau sylfaenol hyn, gallai fod wedi gwneud gwaith ymchwil i ystyried sut mae Iddewon wedi dehongli maddeuant ac wrth wneud hyn, gallai fod wedi dechrau egluro'r gwahanol safbwyntiau crefyddol ar y mater hwn.

Adran

2

Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod
Allweddol 3

Rhaid i addysg grefyddol gael ei haddysgu yn unol â maes llafur cytûn lleol. Defnyddiwyd y ddogfen *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* i arwain y gwaith o ddatblygu meysydd llafur cytûn.

Mae'r adran hon yn dangos sut y gellir defnyddio disgrifiadau lefel pan fyddwch yn llunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau o safbwynt disgrifio perfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Er y byddwch am fedru esbonio pam yr ydych wedi dyfarnu lefel arbennig i ddysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol, nid yw'n ofynnol esbonio eich barn yn y modd hwn ac nid yw'n ofynnol i'ch barn gael ei hategu gan gasgliadau manwl o dystiolaeth am bob dysgwr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn esbonio'r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Byddwch yn llunio barn drwy ystyried cryfderau a gwendidau mewn perfformiad ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser. Bydd angen rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad ym mhob agwedd ar y disgrifiadau lefel.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth mae'n nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

Sam

Lefel 4

Mae Sam yn ddysgwyr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Sam nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Sam ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Sam o'r farn mai Lefel 4 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn addysg grefyddol.

'Sut mae pobl yn dod o hyd i heddwch mewnol?' oedd y cwestiwn sylfaenol a ddefnyddiwyd i ysgogi'r dysgwyr i fyfyrion a thrafod mewn dosbarth Blwyddyn 9. Roedd athro Sam wedi cynllunio i'r dosbarth archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn sail i'w hymateb i'r cwestiwn sylfaenol hwn ac ystyried pa wahaniaeth all credoau penodol eu gwneud i fywydau pobl. Mae pob uned yn delio ag elfennau o'r tri sgil craidd ac roedd y cynllun dysgu ar gyfer y flwyddyn yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau drwy bob agwedd ar yr Ystod.

Roedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwiliad yn cynnwys testun o'r Beibl, y Vedas a'r Bhagavad Gita. Cafodd y dysgwyr werslyfrau a oedd yn ymdrin â chredoau ac arferion yn gysylltiedig â heddwch, gweddio a myfyrion, ac aethon nhw i ymweld â manau addoli lleol er mwyn archwilio'r pwnc.

Ymchwilio | Sut mae pobl yn dod o hyd i heddwch mewnol?

Wrth archwilio'r syniad o heddwch, gofynnodd yr athro i'r dysgwyr ysgrifennu pump diffiniad yr un. Aethon nhw ati i gynnal arolwg yn y dosbarth drwy ofyn i gyd-ddysgwyr am eu diffiniadau a chofnodi sawl diffiniad y daethon nhw ar eu traws. Yna cawsan nhw brofi ymarfer ymdawelu i'w helpu i ddeall y syniad o heddwch mewnol.

Yna gwnaeth Sam waith ymchwil i ddarganfod sut mae Cristnogion yn dod o hyd i heddwch mewnol drwy gredoau, dysgeidiaethau ac arferion. Mae'n disgrifio'n fras rhai o'r arferion Cristnogol sy'n arwain at heddwch mewnol ac mae'n dechrau egluro bod y rhain yn

cynnig i Gristnogion 'cysylltiad rhyngddyn nhw a Duw a Iesu' a bod mynychu gwasanaeth crefyddol yn helpu pobl i 'teimlo fel eu bod wedi cael eu maddau'. Mae hyn yn dangos ei bod hi'n gallu disgrifio ac yn dechrau esbonio'r credoau ac arferion crefyddol ac yn rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y bydd yr agweddau hyn yn effeithio ar fywydau credinwyr (nodwedd o Lefel 4).

Sut mae Cristnogion yn
dud o hyd i heddwch newet?

Mae rhai Cristnogion yn gweddio i Doluwl i
ffeindio heddwch newet. Mae hwn yn arwain rhw
at Duw ac yn gwneud i rhw teimlo fel bod
cysylltiad rhyngddyn rhw a Duw a Iesu.
Mae hwyd maent yn mynd ar Ercil (retreat) i ddatganol
ei huan. Mae Ercil yn cynnwys eistedd ar ben
eich huan am gyfnod o amser ac yn feddwl am
beth sy'n bwysig iddyn rhw.

Byddent hwyd yn mynd i'r Eglwys/capel i un
o'r wafanaethau neu i Gyffesu. Mae hwn yn
gwneud iddynt deimlo well anddyn rhw eu
huan ac yn teimlo fel eu bod wedi cael eu
maddau.

Maent hwyd yn darllen y Beibl er mwyn
ynlacio a bod yn agos at Duw.

Rhwybeth arall maent yn gwneud yw i hwyd
ar bererindod i hwyd Symbolig. Mae hwn yn
helpu gan adael iddynt cael amser i feddwl
am eu hwydau ac am beth sy'n bwysig iddyn
rhw.

Yn y gwaith hwn, mae Sam yn cymharu Cristnogaeth â Bwdhaeth, gan egluro nad yw Bwdhyddion yn 'credu mewn Duw, felly dydyn nhw ddim yn gweddio'. Yma, mae hi'n gwneud cysylltiadau rhwng y credoau ac arferion, gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr (nodwedd o Lefel 5). Er hynny wrth ddefnyddio diagram Venn, mae hi'n dangos ei bod yn gallu nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol ar draws crefyddau (nodwedd o Lefel 5).

Sut mae Budhyddion yn dod o hyd i heddwch newnol?

Mae Budhyddion yn dod o hyd i heddwch newnol yn wahanol i Grïstnogaeth.

Maent yn fyfyrio Set eistedd yn dawel ac yn gamalbwytio feddwit. Dydyn nhw ddim yn credu mewn Duw, felly dydyn nhw ddim yn gweddio.

Tra ei bod yn fyfyrio, gallent llaforganu geriau neu ymadroddion, Set delnyddio mantra. Maent yn eu hadrodd yn dawel i'w hun fel ffocws ar gyfer fyfyrio.

Mae yd mae Budhyddion yn delnyddio gwrthrychau er mwyn helpu nhw i gamalbwytio. Maent yn delnyddio clwynmantra, lluriau o'r Budha ar y wal, arogl ffyn ac yn y haen. Mae nhw ~~sef~~ hwyd yn eistedd mewn ffordd arbennig Set y 'Salle lotus'.

Tra eu bod yn fyfyrio maent yn ceisio dod o hyd i Nirvana, Set Stad o feddwit lle mae dioddefaint yn dod i ben ac maent yn dod o hyd i gwirionedd bywyd.

Dod o hyd i heddwch newnol.

Crïstnogaeth

- Gweddio i Duw
- Mynd ar encil herosyddol
- Cymal Cymunedeb
- Mynd i'w eglwys/capel pob wythnos
- Canu emmyrau crefyddol
- Iesu - mab Duw
- Credu bod Duw wedi creu byd.
- Darllen y Beibl
- Datlu gwyliau arbennig
- Gwisgo croes.


- Byd Natur
- Pŵl Gregholau
- Delnyddio Symboli dod o hyd i heddwch newnol.
- Mynachlogydd Budhaeth a Chrïstnogaeth.
- Eisiau heddwch
- Mwy nag un fath o greyddol.
- Darllen llyfrau cyffwrddig Beibl/Sutras
- Myfyrio
- Eisiau dod o hyd i heddwch newnol.
- Mynd ar encil.

Budhaeth

- Dim yn credu mewn Duw.
- Gardd Zen
- Gwyliau euhun.
- Mantra
- Ceisio dod o hyd i Nirvana (Stad o feddwit) trwy fyfyrio.
- Ceisio dod o hyd i oleuadigaeth Siddhartha Gautama.
- Meddwit am yr elfennau wrth fyfyrio.
- Darllen y Sutras
- Addoli yn y Templ.
- Llaforganu
- Delnyddio gwrthrychau wrth fyfyrio.

Ymchwilio | Beth yw pwrpas gweddïo? (Cristnogaeth)

Er mwyn darparu cyd-destun diddorol, dangosodd yr athro rannau o'r ffilm 'Evan Almighty' i helpu'r dysgwyr i ystyried gwir bwrpas gweddïo. Wrth ystyried sut mae gweddïau yn cael eu defnyddio yn y ffilm, mae Sam yn dechrau egluro nad yw gofyn i Dduw am bethau materol yn briodol. Mae'n mynd yn ei blaen i restru rhesymau pam mae pobl yn gweddïo ac mae'n eu gosod yn y drefn mae hi'n credu sydd fwyaf teilwng. Yna mae'n mynd yn ei blaen i grynhoi sut mae gweddïo yn effeithio ar fywydau credinwyr drwy awgrymu bod perthynas pobl â Duw yn gwneud iddyn nhw 'teimlo'n llawn gobaith a chariad tuag at pawb arall. Os maent yn teimlo'n wael maent yn gallu troi at Dduw i'w helpu a'i cyngori'. Mae hyn yn dangos ei bod hi'n gallu dechrau esbonio'r arferion sylfaenol crefyddol a sut mae gweddïo yn effeithio ar fywydau credinwyr (nodwedd o Lefel 4).



Pam mae pobl yn weddio.

- Cael maddeuant
- Gofyn am help/iechyd auyb.
- Diolch am rhywbeth
- Cyfadddef pechodau
- Cael eu ~~maddeu~~ addau.
- I Stopio pŵerau drwg rhag eu gatael
- I Siarad â Duw.
- Myfyrio
- I beidio cael eu temptio.

Sut mae gweddio yn effeithio ar fywyd pobl dydd Credinwyr?

Maent yn teimlo bod Duw tu ôl iddyn nhw ac mae'n gwneud rhwng hwy hyderis gan fod Duw yn a bwy'r amser. Maent yn teimlo'n llawn gobaith a chariad tuag at pan's arall.

Os maent yn teimlo'n wael maent yn gallu troi at Dduw i'w helpu â'i cyngori. Daes dim angen iddyn nhw protï eu hun gan fod Duw yn eu caru nhw pob amser.



Dewisodd y dysgwyr o ddetholiad o weddïau (a ddarparwyd gan yr athro) a gofynnwyd iddyn nhw dynnu sylw at y geiriau nad oedden nhw'n eu deall cyn egluro am beth mae'r weddi'n sôn. Wrth egluro beth mae pob adran o'r weddi'n sôn amdano, mae Sam yn *disgrifio rhai credoau crefyddol sylfaenol* (nodwedd o Lefel 3). Pan ofynnir iddi nodi pa gredoau roedd Sant Ffrancis yn eu rhannu yn y weddi hon, mae hi'n dechrau *esbonio'r credoau* (nodwedd o Lefel 4), e.e. 'Gallai helpu Duw i ddod â heddwoch drwy helpu pobl i deimlo'n well am fywyd. Mae'n credu bod pobl yn mynd i'r nefoedd pan fyddant yn marw hefyd'. Mae hyn yn *rhoi enghraifft penodol* o sut mae credoau yn effeithio ar fywydau credinwyr (nodwedd o Lefel 4).

1. Arglwydd, gwna fi'n offeryn dy hedd.
Lle mae casineb, boed i mi hau cariad,
Lle mae camwedd, maddeuant,
2. Lle mae amheuaeth, ffydd,
Lle mae anobaith, gobaith,
Lle mae tywyllwch, goleuni,
Lle mae tristwch, llawenydd
3. O Feistr Dwyfol, caniatâ i mi gysuro yn hytrach na chael fy nghysuro,
I ddeall yn hytrach nag i gael fy neall,
I garu yn hytrach na cheisio cael fy ngharu,
4. Oherwydd wrth roi yr ydym yn derbyn,
Wrth faddau yr ydym yn derbyn maddeuant,
Wrth farw yr ydym yn deffro i fywyd tragwyddol.

Addasiad Gweddi Sant Ffransis o Assisi

Pa eiriau ydych chi wedi tynnu sylw atyn nhw?	Beth yw ystyr y geiriau hyn?
Offeryn	Fel y pethau mae adeiladwr yn defnyddio.
Maddeuant	Pan ti'n wneud rhywbeth drwg i rhywun arall ti'n gofyn iddyn nhw faddau i ti.
Ffydd	Yn meddwl bod Duw yn edrych ar ôl ti.
Dwyfol	Person arbennig fel Duw – Duwiol.
Caniata	Gwneud e i ddigwydd
Cysuro	Gwneud rhywun i deimlo yn well.
Fywyd tragwyddol	Bywyd am byth.

Rhifwch y frawddeg/paragraff	Eglurwch beth yw ystyr pob brawddeg/paragraff? (Gallwch ddefnyddio eich gwybodaeth am ddysgeidiaethau Beiblaidd i'ch helpu i egluro.)
1	Mae Sant Ffransis yn gofyn i chi fod yn berson sydd yn dod â hedd, maddeuant a chariad.
2	Mae Sant Ffransis eisiau dod â gobaith, goleuni a llawenydd i bobl.
3	Mae Sant Ffransis eisiau i bobl i fod yn hapus ac i deimlo yn gariadus.
4	Mae e'n dweud bydd pobl yn byw am byth yn y nefoedd.

Pa greodau oedd Sant Ffransis yn eu rhannu yn y weddi hon?

Mae e'n dweud roedd e'n gallu helpu Duw i ddod â heddwch i bobl trwy rhoi help iddyn nhw deimlo yn well am eu bywydau nhw. Hefyd mae e'n credu bod pobl yn mynd i'r nefoedd pan maen nhw'n marw.

Ymchwilio | Beth yw pwrpas gweddïo? (Hindwâeth)

Ar ôl archwilio rhai arferion crefyddol drwy efelychu puja gerbron cysegr Hindwâidd a adeiladwyd yn yr ystafell dosbarth ac ar ôl archwilio rhai dysgeidiaethau Hindwâidd, gofynnir i'r dysgwyr ystyried sut gall gweddïau Hindwâidd helpu pobl i ddod o hyd i heddwch mewnol a sut gall effeithio ar fywydau credinwyr. Mae Sam yn defnyddio un o'r mantrâu i ddangos peth dealltwriaeth o sut mae'r dysgeidiaethau'n cael eu defnyddio'n rhan o'r arfer crefyddol wrth ddisgrifio'r arfer hwnnw. Mae hi'n *rhoi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd y mae gweddïo'n effeithio ar fywydau credinwyr* (nodwedd o Lefel 4) ac yn *dechrau esbonio* (nodwedd o Lefel 4) bod yn 'rhaid iddyn nhw fod yn glên wrth bopeth gan fod Duw yn rhan o bopeth'.

Sut gall Hindwâeth helpu pobl i ddod o hyd i heddwch mewnol?

- Mae'r weddi y maen nhw'n ei hailadrodd yn aml yn ymwneud â heddwch - "O'r afreal arwain ni i'r Real; o'r tywyllwch arwain ni i'r Goleuni; o angau arwain ni i Anfarwoldeb. Om heddwch, heddwch, heddwch."
- Mae Hindwâiaid yn addoli bob dydd wrth eu cysegr yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae Hindwâiaid yn mynd i'r deml i weddio.
- Mae popeth yn eu bywydau yn dod â nhw'n agos at Dduw.

Sut gall gweddïo effeithio ar fywydau Hindwâeth?

- Maen nhw'n myfyrio drwy ioga Hatha ac mae hyn yn eu tawelu.
- Mae'n rhaid iddyn nhw godi'n gynharach os ydynt am weddio.
- Mae'n rhaid iddyn nhw brynu bwyd ychwanegol i'w roi yn y cysegr.
- Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn glên wrth bopeth gan fod Duw yn rhan o bopeth.

Ymchwilio | Sut mae pobl yn dod o hyd i heddwch mewnl drwy fynd ar bererindod?

Wrth ystyried y cwestiwn sylfaenol 'Sut mae pobl yn dod o hyd i heddwch mewnl?', caiff y dysgwyr eu hannog i wneud gwaith ymchwil unigol ar wahanol ffyrdd mae pobl grefyddol yn dod o hyd i heddwch mewnl.

Penderfynodd Sam archwilio'r arfer o fynd ar bererindod. Mae Sam yn dechrau ei gwaith archwilio drwy egluro 'Encil – lle tawel lle mae pobl yn mynd i ddod o hyd i offwystra a heddwch neu lle maen nhw'n mynd i ganol bwyntio ar eu crefydd'. Mae'n mynd yn ei blaen i ddweud 'Mae pobl yn credu taw Duw greodd y byd felly maent yn cael cysylltiad agos gyda Duw . . .'. Yn yr ymateb hwn, mae hi'n dangos peth dealltwriaeth o reswm crefyddol sy'n gwneud i bobl ddewis mynd ar bererindod i le o harddwch naturiol. Mae hyn yn rhoi rhyw arwydd ei bod yn trafod ymatebion pobl eraill i faterion sy'n ymwneud â bywyd. Gellid bod wedi datblygu'r enghraifft hon o ddangos nodweddion o Lefel 4 wrth ystyried pam byddai pobl grefyddol yn mynd ar bererindod, ond yn yr wybodaeth hon, mae hi'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd yn ystod pererindod i Bennant Melangell yn bennaf, yn hytrach na thrafod sut gwnaeth profiad Siôn ei helpu i ddod o hyd i heddwch mewnl.

Yn y gwaith hwn, roedd athro Sam yn cydnabod ei bod yn dangos rhai nodweddion sylfaenol Lefel 4, ond roedd yn teimlo nad oedd y gwaith wedi rhoi sylw llawn i'r cwestiwn sylfaenol a godwyd.



Ercil - lle tawel lle mae pobl yn mynd i ddod o hyd i orffwystro a heddwch neu lle maen rhwng mynd i gasol swyctio, ar eu crefydd.

Pam mae manau o ercil yn aml newn ardalach o bydfethuch naturiol?

Maent yn aml newn ardalach o bydfethuch naturiol achos maen llonydd ac yn dawel, does dim Siŵn trallus neu pobl.

Kelyd, mae pobl yn credu taw Duw geodd y byd felly maent yn cael cysylltiad agos gyda Duw ac yn gallu myfyrw a ymlacio. Mae'r golygfeydd yn creu heddwch mewnol gan eiddo mor arhugol a pherffaith.

Pam aeth Sion i Bennant
Melangell?

Aeth Sion i Bennant Melangell achos roedd leukemia ar Sion a bod canolfan arbennig yn Bennant Melangell a gyfer pobl Sion dioddef o ganser. Mae kelyd eglwys yna lle mae pobl yn gweddio dros pobl fel Sion a lle mae ei gallu cysylltu gyda Duw.

Yn Bennant Melangell mae gardd dawel lle mae pobl yn ffrystro harddwch y cwm. Mae yna adran yna Sion gallu helpu pobl ymlacio a bywyd a marwolaeth.

Ymchwilio | Sut byddwch chi'n dod o hyd i heddwch mewnlol?

Wrth ddarparu ymateb personol, mae Sam yn egluro ei bod hi'n Grynwr ac er ei bod yn credu bod ei chrefydd yn bwysig, nid yw'n credu ei fod wedi newid ei bywyd. Mae'n dweud bod y gwasanaethau mae hi'n eu mynychu yn debyg i wasanaethau Bwdhyddion Zen gan eu bod yn eistedd mewn tawelwch, ond nid yw'n egluro pam eu bod yn wahanol o ran eu teimladau a'u barn. Felly yn yr adran hon o'r gwaith, mae hi'n *disgrifio ei theimladau a'u gweithrediadau ei hun* (nodwedd o Lefel 3).

Yn lle mynd i'r Eglwys pob dydd Sul, rydw i'n mynd i chyfarfod Crynwyr ar yr ail penwythnos o bob mis. Yn y chyfarfodau yma, rydym yn eistedd am awr yn dawel gan feddwl am bywyd. Maent rhuwfaint fel gerddi Zen i Bwdhyddion, am ei fod yn ymlaciol ac yn ffordd o fyfyrto, ond rydym yn ei gynnal yn ein ystafell fyw, nid mewn gardd. Felly mae grefydd yn eithaf pwysig i mi, ond rydw i'n credu ni ddylai crefydd newid ein bywyd yn hollol neu bod y peth fwyaf bwysig yn y byd iddych chi.

Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 3 a 4 barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Wrth ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol trwy drafod ynghylch sut mae pobl yn dod o hyd i heddwch mewnlol, nid yw Sam bob amser yn ymateb yn llawn i'r cwestiynau a godir, ac oherwydd hyn mae'n aml yn troi'n ôl at ddisgrifio yn hytrach na thrafod. Roedd ei dehongliad o weddio yn dangos peth dealltwriaeth o natur gweddio ac wrth egluro pa gredoau roedd Sant Ffransis yn eu cyfleu yn y weddi, dangosodd rywfaint o ymwybyddiaeth o gredoau Cristnogol sylfaenol, e.e. gallai ymdrechion Sant Ffransis fel canolwr helpu i gyflawni nodau Duw a bod Cristnogion yn credu y byddan nhw rywsut yn nes at Dduw ar ôl marw.

Cynigiodd syniadau diddorol ynghylch sut mae gweddïo'n ddyddiol yn effeithio ar Hindŵaidd hefyd. Roedd strwythur pendant i gymhariaeth Sam o'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng Cristnogaeth a Bwdhaeth ac roedd yn fanwl iawn ac yn dangos ei bod yn gallu dangos sgiliau lefel uwch, o gael cymorth. Roedd ei hymateb personol yn cynnig cipolwg diddorol i'w chredoau ei hun, ond nid oedd yn ystyried sut a pham roedd ei theimladau, ei chredoau a'i gweithrediadau ei hun yn cymharu â phobl eraill o Gristnogaeth, Hindŵaeth neu Fwdhaeth, gan atgyfnerthu'r cyfan roedd hi wedi'i ddarganfod drwy ymchwilio.

Yn ei gwaith mae hi wedi dangos dealltwriaeth o amrediad o eirfa grefyddol a symbolaeth grefyddol (yn arbennig wrth ddadansoddi gweddi Sant Francis). Mae hi hefyd yn sylweddoli gall lleoedd o harddwch neu addoliad 'helpu pobl ymdopi â bywyd a marwolaeth' ac mae hi'n egluro bod credinwyr yn 'credu taw Duw greodd y byd felly maent yn cael cysylltiad agos gyda Duw . . . '.

Y ffordd ymlaen

Er mwyn i'w sgiliau ddangos nodweddion y lefel nesaf, mae angen iddi ddefnyddio'r wybodaeth mae'n ei chasglu (ac yn ei disgrifio yn ei gwaith ysgrifenedig) er mwyn cynnal mwy o drafodaeth, e.e. darparu esboniadau, adnabod cymariaethau, dod i gasgliadau ac ati. Gallai'r athro ei helpu drwy osod tasgau sy'n datblygu sgiliau amgyffred a gwerthuso yn benodol – er enghraifft, roedd strwythur eithaf pendant i'w gwaith ar weddïau, ac oherwydd hyn roedd Sam yn gallu dangos y sgiliau roedd hi wedi'u meithrin yn well.

Er mwyn i Sam ddatblygu ei sgiliau mewn perthynas ag archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, mae angen i fwy o destunau crefyddol fod ar gael iddi sy'n dangos pam mae pobl yn credu bod gweddïo yn bwysig, a'r ffordd defnyddir y gweddïau hynny mewn arferion crefyddol megis addoli, myfyrio, pererindota ac ati. Byddai mwy o wybodaeth am y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol penodol, a chyfweliadau â phobl grefyddol neu ymweliadau â manau addoli, myfyrio neu encilio crefyddol wedi helpu Sam i roi ymateb personol mwy craff.

Catrin

Lefel 5

Mae Catrin yn ddysgwyr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Catrin nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Catrin ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Catrin o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn addysg grefyddol.

Aeth dosbarth Blwyddyn 9 ati i ystyried y cwestiwn sylfaenol 'Beth yw ffydd a sut mae'n effeithio ar fywydau pobl grefyddol?'. Roedd athrawes Catrin wedi cynllunio i'r dosbarth ddeall natur ffydd grefyddol ac archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn sail i'w hymateb i'r cwestiwn sylfaenol hwn, ac ystyried sut gall ffydd wneud gwahaniaeth i fywydau pobl drwy gred ac ymddiriedaeth. Mae pob uned yn delio ag elfennau o'r tri sgil craidd ac roedd y cynllun dysgu ar gyfer y flwyddyn yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau drwy bob agwedd ar yr Ystod.

Roedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwiliad yn cynnwys taflenni a gynhyrchwyd yn arbennig gan yr athrawes i ddarparu gwybodaeth am y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, a'r effaith mae ffydd yn ei chael ar unigolion. Roedd y dysgwyr yn gwneud gwaith ymchwil gan ddefnyddio'r rhyngwyd a llyfrau hefyd i archwilio ffydd grefyddol o ystod o safbwyntiau crefyddol.

Ymchwilio | Beth yw ffydd grefyddol?

Gan ei fod am i'r dysgwyr ymwneud â chysyniad cymhleth ffydd, darparodd yr athrawes amrywiaeth o ffotograffau i'r dysgwyr (e.e. o mandir, Iddew yn gweddio, Cristion yn cyfrannu at Gymorth Cristnogol, Hajj, myfyrio adeg machlud yr haul, priodas Gristnogol a gwisg Sikh) a chardiau'n cynnwys dysgeidiaethau crefyddol (e.e. o'r Vedas, y Torah, yr Efengylau ac ati). Roedd yn rhaid i bob aelod o'r grŵp ddisgrifio'r hyn oedd yn y llun a defnyddio'r ddysgeidiaeth grefyddol a ddewiswyd i egluro'r cysylltiad rhwng y llun a ffydd grefyddol.

Yn ei hymateb llafar⁴, disgrifiodd Catrin beth oedd yn digwydd yn y llun. Yna eglurodd ar lafar 'Mae ffydd yn cael effaith ar ymddygiad pobl, fel os yr ydych chi'n Gristion, byddwch yn gwrtais ac yn trin bobl eraill fel yr hofffen nhw gael eu trin – fel stori Iesu am Y Samariad Trugarog⁵ ac Y Bregeth ar y Mynydd⁶. Fel Cristion mae'n dda i rhoi arian i elusennau cristnogol fel Cymorth Cristnogol.' Yn y sylw hwn, mae'n cysylltu'r gred y dylai Cristnogion 'drin eraill fel yr hoffent gael eu trin' â'r dysgeidiaethau cysylltiedig yn yr Efengylau a'r arfer disgwylidig sy'n gofyn i Gristnogion roi i elusennau i helpu pobl eraill. Mae hi'n *gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion a astudir* (nodwedd o Lefel 5). Dewisodd gynnig sylwadau ar y llun o'r briodas hefyd a dywedodd 'mae ganddyn nhw ffydd bod Duw o grefydd Cristnogion yn gael ffydd ynddyn nhw i garu ei gilydd am eu bywydau nhw i gyd. Mae hwnna yn bwysig i'ch calon ac yn rhoi hunan-barch i chi bod Duw â ffydd ynddo chi.' Fel hyn mae hi'n dangos y cysylltiadau rhwng arfer priodas Gristnogol a'r gred bod priodas Gristnogol yn uniad y mae Duw yn dyst iddo. Unwaith eto, mae hi'n *gwneud cysylltiadau . . . gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr* (nodwedd o Lefel 5).

Mae ffydd grefyddol yn peth bwysig i nifer fawr iawn o bobl ac yn rhan fawr o'i fywydau, fel bobl yn addoli bob dydd ac yn ddarllen o'i lyfrau sanctaidd (Torah, Beibl ac ati).

Mae ffydd yn cael effaith ar ymddygiad pobl, fel os roeddech chi'n Gristion, byddwch yn gwrtais ac yn trin bobl eraill fel yr hofffen nhw gael eu trin - fel stori Iesu am Y Samariad Trugarog ac Y Bregeth ar y Mynydd. Fel Cristion mae'n dda i rhoi arian i elusennau Cristnogol fel Cymorth Cristnogol.

Mae ffydd grefyddol yn bwysig oherwydd pan mae Cristnogion yn priodi maen nhw'n fynd i'r capel neu i'r eglwys, oherwydd mae ganddyn nhw ffydd bod mae Duw yn gael ffydd ynddyn nhw i garu ei gilydd am eu bywydau nhw i gyd. Mae hwnna yn bwysig i'ch calon ac yn rhoi hunan-barch i chi bod Duw â ffydd ynddo chi.

⁴ Yn eu trafodaethau grŵp mae'r dysgwyr yn cadw eu datganiadau ar recordydd digidol.

⁵ Luc 10:45

⁶ Mathew 5-7

Ymchwilio | Sut mae ffydd grefyddol yn effeithio ar fywydau pobl?

Er mwyn datblygu'r syniadau hyn, darparwyd dirgelion i'r dysgwyr eu datrys ynghylch bywydau pobl (enwog) mae eu ffydd wedi dylanwadu arnyn nhw. Yna gofynnwyd iddyn nhw wneud eu gwaith ymchwil eu hunain. Edrychwyd ar fywydau Ani Pachen, Terry Waite, Guru Arjan, Mohatma Gandhi a'r Fam Teresa⁷.



Yn ogystal ag ysgrifennu am ffydd Martin Luther King a'r Fam Teresa, dewisodd Catrin ysgrifennu am ffydd ei mam hefyd. Wrth grynhoi ffydd ei mam, mae'n nodi ei bod wedi ei helpu hi drwy 'amseroedd mwyaf anodd' ac wedi ei helpu i 'rhoi deimlad o berthyn i hi'. Yn hyn o beth, mae hi'n *disgrifio'r effaith* mae ffydd yn ei chael *ar fywydau credinwyr* (nodwedd o Lefel 5).

⁷ Gellir dod o hyd i wybodaeth am fywydau'r pobl enwog hyn yn y DVD *Ffydd: Bywyd: Sialens* a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a gynhyrchwyd gan Tinopolis (ar gael o www.gwales.com).

Pam mae gennych chi ffydd mewn rhywbeth? Sut mae'n gwneud i chi deimlo? Sut mae'n gwneud i chi ymddwyn?

Yn gyntaf, ffydd Cristnogol. Pwydus i yn Cristion a wedi bod yn mynd i'r Eglwys ers mi foel yn 4 wythnos oed, mae hwn yn rhoi deimlad hapus a rhyng golybod. Fydd yr ysbryd glan gyda fi trwy amser. Fydd rhyngyf wedi siarad am fy mam. Roedd ganddi ganser pan oeddwn i yn 5 mlwydd oed ac mae hi dal yn ymladd o a pan mae amseroedd yn annod hi'n ddydd os ydych chi'n galli curo cancer rhyng galli curo problemau bach. Mae hysod gen i ffydd yn fy frindiau.★

Ydych chi'n credu bod yna wahanol fathau o ffydd? Pam? Beth ydy'r gwahanol fathau o ffydd sy'n bodoli?

Ydw. Pwydus i yn credu bod yna lot (~~ffydd~~) o fathau wahanol o ffydd. Mae yna ffydd grefyddol, ffydd mewn rhywbeth, ffydd mewn rhwyng, neu ffydd mewn grŵp e.e. I'm pŵl droed.

★ Mae gen i ffydd yn fy frindiau, oherwydd weithiau dydych chi deimlo yn galli siarad i'ch rhieni am rhai bethau ond gan fod rhyng yn ymddeol ydych chi'n rhoi rhyng yn galli deimlo bethau yna i'nhw.

Sut ydych chi'n gwybod bod (~~ganddi~~) ganddi ffydd mewn rhywbeth?

Par mae fy mam yn mynd i'r gwely (~~mae~~) mae hi yn reid i' seim yn ddilled nos ac yn cymryd ei holl modurion a pob ddarn o gemurthi ond am 2 mwydys, mae'r mwydys yma yn codwyrn egor groes wnaeth Iesse maru arno. Yna pob nos mae hi yn plygu yn erbyn y gwely ac yn gweddio egor groes yn ei ddwylo. Oherwydd bod rhyng wedi gweld hwn rhyng golybod bod ganddi ffydd yn ddur.

A wnaeth ei ffydd nhw ei helpu mewn rhyw ffordd? Sut?

Wnaeth ffydd fy mam helpu mewn lot o ffydd wahanol. Mae o wedi helpi hi hyd yn oed yn yr amseroedd mwyaf annod, mae o wedi rhoi teulu newydd skion gristnogol i hi, wedi rhoi deimlad o berthyn i hi, rhoi swydd i hi a lot, lot mwy. Pan siaradais am amseroedd roeddwn yn sôn am cancer fy mam. Cafodd fy mam ganser pan oeddwn yn 5 mlwydd oed. Pan roedd hi yn yr ysbryd siaradodd i ddur. Dywedodd hi i fo: "dyma fy mwydys i. Mae gen i fy mwydys, teulu ac rhyng i yn hapus iawn o'ys blaned yma a sain swor os ydych chi'n gadael eho. Felly dyma fy mwydys i a rhyng gadael o yn rich dwylo chi."

O'i hymchwil, mae hi'n egluro bod Martin Luther King, trwy ei grefydd 'yn credu bod Duw wedi ei ddewis o i anfon y neges yma i'r byd . . . ' ac wrth sôn am effaith ffydd y Fam Teresa, mae hi'n egluro 'Gwnaeth ei ffydd helpu iddi i wneud yr holl bethau da yma. Cafodd alwad i fod yn lleian a chafodd alwad i fynd i Calcutta, a gwnaeth wahaniaeth oherwydd ei ffydd'. Mae Catrin yn *disgrifio'r effaith* mae crefydd yn cael *ar fywydau credinwyr* (nodwedd o Lefel 5).

Mae yna lot o bobl enwog yn y byd sydd yn enwog am ei ffydd grefyddol. Mae ffydd grefyddol yn gallu helpi pobl mewn lot o ffyrdd wahanol a son am y ffyrdd yma yn y paragraffau nesaf.

Helpu pobl i wneud wahaniaeth yn y byd yw rhywbeth mae ffydd yn helpu pobl i wneud. Engraifft da o hyn yw Martin Luther King. Rwy'n siwr rydych chi wedi clywed am Martin Luther King o'r blaen. Mae ei crefydd o wedi helpu o i trio ddangos i'r byd bod pobl gwyn a pobl du yn heiddi yr un hawliau. Mi oedd Martin Luther King yn Gristion a roedd o yn credu bod Duw wedi ei ddewis o i anfon y neges yma i'r byd. Heb ffydd grefyddol mi fyddwn ni dal yn byw mewn byd ble nad oedd gan pobl du unrhyw hawliau o gwbl!

Roedd ganddo Mother Teresa ffydd Cristnogion hefyd, a chafodd hi alwad i fynd i Calcutta (India) i helu pobl tlawd, dioddef a wahanglwyf. Dechreuodd ysgol ar y stryd gan ddefnyddio y llawr fel bwrdd du a phren fel sialc, ac agorodd ysbyty bach a oedd yn darparu rhwymau, bwyd a moddion i'r tlodion. Creodd urdd grefyddol newydd sef Elusen Chwiriorydd Centadol.

Gwnaeth ei ffydd helpu iddi i wneud yr holl bethau da yma. Cafodd alwad i fod yn lleian a chafodd alwad i fynd i Calcutta, a gwnaeth wahaniaeth oherwydd ei ffydd.

Ymchwilio | Beth yw gwerth ffydd grefyddol?

Wrth ymateb i'r cwestiwn sylfaenol hwn, mae Catrin yn gwneud ei gwaith ymchwil ei hun ac yn egluro bod gan ffydd werth mawr i bobl grefyddol ac mae'n *cyfiawnhau ei syniadau a'i barn* (nodwedd o Lefel 5) drwy gyfeirio at enghreifftiau penodol o grefyddau'r byd a ddaeth i'r amlwg o'i *hymchwiliadau a'i phrofiadau* ei hun (nodwedd o Lefel 5). Er enghraifft, mae'n egluro bod ffydd wedi rhoi cryfder i Muhammad Ali pan ddaeth yn wrthwynebydd cydwybodol, ac i'r ferch Sikh a wrthododd dynnu'r 5 K yn yr ysgol. Mae hi'n crynhoi bod ffydd person yn dylanwadu ar ei ffordd o fyw a'i fodd o chwilio am ystyr gan fod Bwdhydd yn chwilio am ffordd o 'geisio lleihau dioddefaint' a Hindŵiaid yn 'ceisio ennill Karma da trwy bywyd da'. Wrth nodi'r enghreifftiau hyn, mae hi'n dangos *yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws crefyddau* (nodwedd o Lefel 5).



Mae hi'n egluro bod ffydd yn rhoi 'gobaith fydd bywyd ar ôl marwolaeth', 'dysgu ni sut i barchu eraill, sut i ddysgu o lyfr sanctaidd y crefydd a sut i ymdopi mewn amseroedd anodd. Mae o hefyd yn rhoi teimlad o falchder i ni a hefyd teimlad ein bod yn perthyn i rhywbeth'. Mae'r ymateb hwn yn dangos ei bod hi'n deall cysyniadau megis bywyd ar ôl marwolaeth, parch tuag at eraill, delio â dioddefaint, diolchgarwch a chymuned sy'n ymwneud â ffydd ac mae hi'n dechrau *defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodus i ddatblygu ymatebion priodol* (nodwedd o Lefel 6).

Mae ffydd grefyddol yn werthfawr achos mae'n rhoi cryfder i bobl gan eu hannog i gario 'mlaen neu i gyflawni yr hyn maen nhw'n gredu sydd yn iawn. Mae Muhammad Ali yn enghraifft. Newidiodd ei grefydd a'i enw, ac fe roddodd hwn gryfder iddo i wrthod ymuno â'r fyddin Americanaidd oherwydd ei fod yn gwrthwynebu'r rhyfel yn erbyn Fietnam. Fe wnaeth ffydd grefyddol hefyd helpu y ferch Sikhiaidd a wrthododd dynnu'i breichled i gyd-fynd ag un o reolau'r ysgol oherwydd roedd yn un o reolau'r grefydd. Roedd ei ffydd grefyddol wedi rhoi cryfder iddi sefyll dros beth oedd hi'n ei gredu oedd yn iawn. Gwnaeth hyd yn oed ffydd grefyddol Iesu Grist wedi ei helpu i wneud y pethau da a wnaeth, ac i farw dros ei bobl.

Gobaith yw peth arall mae ffydd grefyddol yn rhoi i bobl, e.e. y gobaith fydd bywyd ar ôl marwolaeth, a bydd popeth yn iawn yn y diwedd, y gobaith fydd rhywun yn gwella os ydyn nhw'n sal.

Mae ffydd hefyd yn effeithio ar ffordd o fyw pobl, e.e. mae'n rhaid i Fwslemiaid fynd i'r Hajj o leiaf unwaith yn ei bywydau. Enghraifft arall yw bod rhaid i Iddewon wisgo gwisg arbennig wrth addoli, ac mae Bwdhyddion yn byw bywyd heddychlon i geisio lleihau dioddefaint, ac mae Hindŵiaid yn ceisio ennill Karma da trwy bywyd da. Mae llawer o grefyddau hefyd yn mynd i le sanctaidd i addoli, e.e. Cristnogion i'r Capel neu'r Eglwys. Mae rhain i gyd yn newid y ffordd rydych yn byw.

Mae o yn dysgu ni sut i parchu eraill, sut i dysgu o llyfr sanctaidd y crefydd a sut i ymdopi mewn amseroedd anodd. Mae o hefyd yn rhoi teimlad o balchder i ni a hefyd teimlad bod rydyn ni'n perthyn i rhywbeth.

Ymchwilio | Beth mae ffydd yn ei olygu i chi?

Roedd yr athrawes yn cynorthwyo'r dysgwyr i ffurfio eu hymatebion personol drwy ddefnyddio 'rhaff mynegi barn' lle roedd yr athrawes yn darparu datganiadau i'r dysgwyr am ffydd (yn gyffredinol yn hytrach na dim ond ffydd grefyddol) a'r dysgwyr yn penderfynu ym mha ran o'r 'rhaff mynegi barn' i sefyll gan ddibynnu ar ba mor gryf roedden nhw'n cytuno/anghytuno â'r datganiad. Defnyddiodd y dysgwyr y gweithgaredd hwn i ffurfio ymateb ysgrifenedig ynghylch ffydd. Fel person crefyddol, darparodd Catrin eglurhad ynghylch *sut mae ei theimladau a'i barn ei hun yn effeithio ar ei bywyd* (nodwedd o Lefel 5) drwy rannu ei phrofiadau o addoli mewn eglwys a thrwy egluro pwysigrwydd gobaith (sydd ag arwyddocâd personol iddi).

Rhywbeth arall wnes i sôn am yn gynharach oedd gobaith. Mae ffydd yn rhoi gobaith i bobl a enghraifft dda o hyn yw os yw rhywun wedi marw, os yw rhywun yn sal, Iddewon yr Holocaust a.y.y.b. Wnaeth ffydd helpu nhw hyd yn oed yn yr amseroedd fwyaf anodd a pam mae o yn edrych fel nad oedd yna unrhyw golau ar ôl yn diwedd y twnel. Ond mae ffydd grefyddol yn rhoi gobaith i bobl ac yn helpu nhw i weld bod yna dal rhywfaint o olau ar ôl yn y twnel.

I fi mae ffydd yn rhoi teimlad o berthyn fel bod ganddoch chi teulu newydd sbon pob tro rydych chi'n mynd i'r Eglwys. Rydw i'n teimlo'n hapus a wedi fy nghysuro pan rydw i yn yr Eglwys. Mae ffydd hefyd yn golygu cân. Rydw i yn mynd i'r Eglwys bob dydd Sul ac yn canu fy nghalon allan i ddangos fy ffydd i mewn Duw.

Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Catrin yn dangos ei bod wedi ymroi i ystyried y cwestiwn sylfaenol trosfwaol 'Beth yw ffydd a sut mae'n effeithio ar fywydau pobl grefyddol?' drwy gydol ei gwaith. Mae'n defnyddio ystod o dystiolaeth a phrofiadau o'i dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a'i hymatebion personol i gynnig ymatebion priodol i gwestiynau sylfaenol. Mae hyn yn glir o'r enghreifftiau mae'n eu defnyddio o ystod o grefyddau a'i dealltwriaeth gysyniadol o'r elfennau sy'n dylanwadu ar ffydd unigolyn. Mae hyn yn awgrymu ei bod, at ei gilydd, yn dangos nodweddion Lefel 6 o ran cwestiynau sylfaenol.

Er hynny, nid yw elfennau eraill ei gwaith wedi'u datblygu'n ddigonol i ddangos Lefel 6 yn gyson. Er enghraifft, mae hi fel petai'n deall bod cysyniadau megis bywyd ar ôl marwolaeth, parch at eraill a diolchgarwch yn ymwneud â ffydd, ond nid yw'n dangos ei bod yn deall sut mae *gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion* (nodwedd o Lefel 5) yn atgyfnerthu ei dealltwriaeth o'r cysyniadau hyn. Yn yr un modd, nid yw'n *esbonio'r berthynas rhwng ei chredoau a'i gweithrediadau* (nodwedd o Lefel 6), ond mae'n dechrau dangos y *berthynas rhwng credoau a gweithrediadau pobl eraill* (nodwedd o Lefel 6), e.e. ei mam, Martin Luther King a'r Fam Teresa. Er ei bod yn dangos rhai o nodweddion Lefel 6 felly, mae ei hathrawes yn teimlo bod angen iddi wneud mwy o waith i atgyfnerthu ei sgiliau.

Y ffordd ymlaen

Er mwyn i'w sgiliau ddangos nodweddion Lefel 6 ac uwch, bydd angen rhoi cyfleoedd penodol iddi ymarfer creu'r cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, gan ddefnyddio diagramau Venn ac ati, yna defnyddio'r cymariaethau hyn i ddod i gasgliadau. Er enghraifft, gellid gofyn iddi nodi'r pethau tebyg a gwahanol a ddangosir yn y diagram ac egluro sut maen nhw'n perthyn i gredoau, dysgeidiaethau a/neu arferion crefydd benodol. Ffordd arall fyddai defnyddio diagram pry cop â chysyniad yn y canol a thri blwch wedi'u labelu â chredoau, dysgeidiaethau ac arferion a chael Catrin i lenwi'r blychau hyn mewn perthynas â'r cysyniad hwnnw. Byddai angen iddi dynnu'r syniadau hyn at ei gilydd i egluro'r pethau sy'n debyg ac sy'n wahanol o fewn crefyddau a rhwng crefyddau. O ran ei hymateb personol, mae angen iddi ddangos y berthynas rhwng ei chredoau a'i gweithrediadau. Gellid gwneud hyn drwy roi detholiad o senarios moesegol iddi a gofyn iddi sut byddai'n ymddwyn/ymateb yn y sefyllfa honno, gan egluro sut mae ei gweithredoedd yn cyd-fynd â'i chredoau.

Mae Jack yn ddysgwyr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Jack nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Jack ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.




Mae athro Jack o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn addysg grefyddol.

Roedd dosbarth Blwyddyn 9 yn ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol 'Beth mae ymrwymiad yn ei olygu yn Islam?', yn ogystal â sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o'r prif agweddau sy'n effeithio ar fywyd Mwslim megis y Pum Piler ac ati. Mae'r pwnc hwn yn delio'n uniongyrchol â chymhelliant a'r rhesymau am y cymhelliant hwnnw hefyd, megis dylanwad awdurdod a geir yn y credoau a'r dysgeidiaethau, a'r effaith mae hyn yn ei chael ar fywyd Mwslim (trwy ymarfer). Wrth roi ymateb personol, byddan nhw'n ystyried beth sy'n eu cymhell ac yn llywio eu bywydau. Mae pob uned yn delio ag elfennau o'r tri sgil craidd ac roedd y cynllun dysgu ar gyfer y flwyddyn yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau drwy bob agwedd ar yr Ystod.

Roedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwiliad yn cynnwys taflenni a gynhyrchwyd yn arbennig gan yr athro i roi gwybodaeth am y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ffynonellau awdurdod. Roedd y dysgwyr yn gwneud gwaith ymchwil gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a llyfrau hefyd i archwilio Islam.

Ymchwilio | Beth yw'r agweddau pwysig ar Islam?

Defnyddiodd yr athro amrywiaeth o ddulliau gweithredu sy'n ymwneud â sgiliau meddwl, deunyddiau gweledol a dyfyniadau o'r dysgeidiaethau i helpu'r dysgwyr i ddeall gwybodaeth sylfaenol am Islam. Yna gofynnwyd i'r dysgwyr greu cyflwyniad i helpu i gyflwyno elfennau arwyddocaol y grefydd i aelodau'r dosbarth. Yn y gweithgaredd hwn, mae Jack yn creu cyflwyniad PowerPoint sy'n darparu gwybodaeth am Bum Piler Islam ac sy'n defnyddio dyfyniadau o'r ffynonellau Islamaidd i egluro pam mae'r agweddau hyn yn bwysig. Yn y gwaith hwn, mae'n dangos ei fod yn gallu *defnyddio ei ddealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion* (nodwedd o Lefel 6) drwy ddangos bod pob un o'r agweddau hyn yn seiliedig ar awdurdod Islamaidd a'u bod yn dangos i 'Fwslimiaid sut i fyw bywyd ysbrydol gydag Allah yn eu meddyliau o hyd'.



Piler 3- Saum

Rhaid i bob Mwslim ymrydio (mynd heb fwyd a diod- Surah 2.185) rhwng y wawr a machlud yr haul bob dydd ym mis Ramadan. Y rheswm dros ymrydio yw i deimlo yn agos i Allah, i ddangos eu bod yn ddiolchgar iddo, i wneud yn iawn am eu pechodau ac i gofio am yr anghenus.

Pump peth pwysig

- Allah – Un Ddu sydd, Mae Mwslimaid yn credu mewn un Ddu yn unig.
- Muhammad – Proffwyd yw Muhammad. Rhododd Allah y Quran trwy'r angel Gabriel i Muhammad.
- Y Qur'an – yw'r ena ar lyfr sanctaidd y Mwslimaid. Credir mai geiriau Allah yw'r ddatganiadau o'r Qur'an. Gellir a adroddwyd wrth Muhammad gan yr angel Gabriel.
- Y Pum Piler – sef y pump dyletswydd sydd rhaid i Mwslimaid eu dilyn.
- Un Ddu sydd, Allah, a Muhammad yw ei broffwyd (Shahadah)
- Mae rhaid gweddio (Salaat) iwm gwaith bob ddiwrnod.
- Dylet Mwslimaid iei 2.5% o'u incwm mewn arian (Zakat)
- Dylet Mwslimaid yrrwddio (Saum) yn ystod Ramadan.
- Dylet Mwslimaid gaeio mynd ar bererindod (Hajj) i Makkah o leiaf unwaith yn eu oes.
- Phobid o fyw – Mae Mwslimaid yn credu bod pob un yn ydrefal. Mae gweddio eu hain bawys o'i fwyd bob dydd. Ffurfir mai o'berwyd ar bob Mwslim i gyfrannu at mewn helpu anaf. Mae'r pump piler yn dangos y ffordd i'w dilyn.

Piler 4- Zakat

Mae dyletswydd ar bob Mwslim i helpu. Rhaid i Mwslimaid gyfrannu er mwyn helpu eraill. Mae disgwyl i bob Mwslim rhoi canran o'i gyfoeth i'r tiawd (Surah 2.43 & 2.110). Mae 4 rheol ynglwm a rhoi Zakat.

1. Mae rhaid i'r un sydd yn rhoi ddatgan ei ffordd i Allah.
2. Mae rhaid rhoi y Zakat ar y diwrnod pernodedig.
3. Os nag oes gan y person arian gall gyfrannu mewn ffordd arall e.e. os oes ganddo lawer o oada gall roi bwyd.
4. Mae rhaid dosbarthu'r Zakat yn y gymuned lle cafodd ei gasglu.

Piler 5- Hajj

Mae rhaid i bob Mwslim gaeio mynd ar bererindod i Makkah o leiaf unwaith yn ystod ei bywyd (Surah 3.97). Mae y bererindod yn digwydd yn ystod y mis rhamadon o Dhu al Hijah. Parh ydy y peirni tua mlynedd a Makkah bydd yn newid i ddilad ffynniol daf o'wy gyvllus wen. Ar yr Hajj mae pob un o'fio siochi i broffwyd Muhammad a phroffwydau pwysig eraill fel Abraham ac Ishmael.



Y Qur'an

Llyfr sanctaidd i'r Mwslimaid yw'r Qur'an. Mae Mwslimaid yn credu mai geiriau Allah wedi cael ei rhoi i'r Proffwyd Muhammad trwy'r angel Gabriel yw'r Qur'an (Surah 44.2-5) yn Noson y Grym (Surah 97.1-5). Mae Mwslimaid yn perchu'r Qur'an ac yn ei gadw yn ddiogel gyda gorchudd drosto ar y sillf uchaf. Mae hyn yn arwydd i'r Mwslimaid mai'r Qur'an yw'r llyfr pwysicaf yn y ty achos mae'r Qur'an yn dweud am Allah a sut i fyw bywyd da.

Ymchwilio | Sut a pham mae Islam yn effeithio ar fywydau credinwyr?

Fel gweithgaredd gwerthuso/trefnu cymhleth, rhoddir cysyniad i bob grŵp ei archwilio (caiff y cysyniad hwn ei roi yng nghanol diagram pry cop). Yna, mae disgwyl i'r dysgwyr roi trefn ar ddatganiadau a thestunau crefyddol a'u rhannu i dri blwch priodol (â'r teitlau 'Credoau', 'Dysgeidiaethau' ac 'Arferion'). Nid yw'r holl ddatganiadau/testunau a ddarperir yn berthnasol felly, yn rhan o'r broses, rhaid i'r dysgwyr werthuso pa elfennau sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth o'r cysyniad. Y cysyniadau a roddwyd i'r dysgwyr gael dewis o'u plith oedd 'Datguddiad', 'Ufudd-dod', 'Sêl y Proffwyd' ac 'Iachawdwriaeth/Barn'. Gofynnwyd i Jack archwilio 'Datguddiad'. Roedd yn gallu gosod yr holl ddeunyddiau a ddarparwyd yn y lle priodol yn ei ddiagram.

O'r ymchwil yr ydych wedi'i wneud am Islam, eglurwch beth mae'r gair **Datguddiad** yn ei olygu yn y blychau hyn.

Credoau

- Rhoddodd Allah y Qur'an i Muhammad mewn Arabeg, er mwyn i Muhammad allu deall a rhannu'r datguddiad
- Mae Jibra'il yn dweud y bydd y Qur'an yn arweiniad i gredinwyr
- Rhoddwyd y Qur'an i Muhammad ar Noson Rhoi Grym yn ystod Ramadan
- Un Duw sydd ac mae'n dragwyddol

Datguddiad

Dysgeidiaethau

- Surah 12. 1-3 a Surah 56.77-80
- Surah 2.97
- Surah 2.185
- Surah 112

Arferion

- Dewisodd Allah Muhammad ac oherwydd hyn, mae'n cael ei barchu'n fawr. Mae Mwslimiaid yn dweud 'heddwch a bendithion fyddo arno' ar ôl ei enw.
- Mae Mwslimiaid yn dilyn y dysgeidiaethau yn y Qur'an- gan gynnwys y Pum Piler
- Mae Mwslimiaid yn ymptydio ac yn gweddïo yn ystod mis Ramadan i gofio'r digwyddiad pwysig

Wrth egluro ei ddiagram, dywedodd 'Maen nhw'n credu bod y gwir yn cael ei roi drwy 'ddatguddiad'. Mae Mwslimiaid yn credu bod negesydd Duw, Jibra'il wedi rhoi'r Qur'an i'r Proffwyd Muhammad'. Yn yr eglurhad hwn, mae'n mynd yn ei flaen i egluro rhai o'r credoau eraill a gafodd eu datguddio i Muhammad drwy'r Qur'an (dysgeidiaethau), megis y gred mai un Duw sydd a'r gred bod angen i Fwslimiaid gynnal eu perthynas â Duw drwy weddio ac ati. Mae Jack yn mynd yn ei flaen i egluro bod 'Cafodd y Qur'an ei ddatguddio i Muhammad am y tro cyntaf yn ystod mis Ramadan ac oherwydd bod y neges mor bwysig, mae Mwslimiaid yn ymprydio yn ystod y mis hwn i gofio pwysigrwydd y ffaith bod neges Duw wedi'i rhoi i bobl ac i'w helpu i ganolbwyntio ar astudio dysgeidiaethau'r Qur'an'. Drwy esboniadau o'r fath, mae'n dangos bod datguddiad y Qur'an wedi dylanwadu ar gredoau drwy amryw o ddysgeidiaethau, a bod datguddiad wedi dylanwadu ar arferion hefyd, e.e. ymprydio a gweddio. Yn y modd hwn, mae wedi *cymhwyso cysyniad crefyddol 'datguddiad' i'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion* cysylltiedig (nodwedd o Lefel 7).

Mae pobl grefyddol yn credu eu bod yn cael y gwir am Dduw, ond nid drwy iaith dyn. Maen nhw'n credu bod y gwir yn cael ei roi drwy 'ddatguddiad'. Mae Mwslimiaid yn credu bod negesydd Duw, Jibra'il wedi rhoi'r Qur'an i'r Proffwyd Muhammad. Ysgrifennwyd y 'datguddiad' hwn mewn llyfr o'r enw y Qur'an ac mae'r llyfr hwn bellach yn dysgu Mwslimiaid am Dduw ac yn llywio eu bywydau. Cafodd y Qur'an ei ddatguddio i Muhammad am y tro cyntaf yn ystod mis Ramadan ac oherwydd bod y neges mor bwysig, mae Mwslimiaid yn ymprydio yn ystod y mis hwn i gofio pwysigrwydd y ffaith bod neges Duw wedi'i rhoi i bobl ac i'w helpu i ganolbwyntio ar astudio dysgeidiaethau'r Qur'an . . .

Pan ofynnwyd i Jack ddod o hyd i berson â chysyniad gwahanol ac egluro'i gysyniad yn syml i'r person hwnnw a gadael iddo yntau egluro'i gysyniad i Jack, dewisodd gyd-ddisgybl a oedd wedi delio â'r syniad o 'ufudd-dod'. Drwy drafod â'r dysgwr arall sut mae 'ufudd-dod' yn ymwneud â'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion, mae'n dangos ei fod yn gallu *cymhwyso . . . ystod o gysyniadau i amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion* (nodwedd o Lefel 7). Er enghraifft, mae'n dweud mai 'Datguddiad' gan Dduw oedd y man cychwyn ac mai 'dangos ufudd-dod' yw'r hyn mae Mwslimiaid yn ei wneud gan eu bod yn credu bod Duw am iddyn

nhw ymddwyn yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y Qur'an (dysgeidiaethau)'. Mae hyn yn dangos ei fod yn deall y cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion a sut gellir cymhwyso'r rhain i wneud synnwyr o'r cysyniadau sy'n cael eu hastudio er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddyfnach.

Ar ôl siarad â Catrin ynghylch y cysyniad mae hi wedi gweithio arno, 'ufudd-dod', rwyf wedi dysgu y gofynnwyd i'r bobl a wrandawodd ar ddatguddiad Muhammad 'ufuddhau' i ewyllys Allah, sef enw'r crefydd - Islam (ufudd-dod).

Mae dysgeidiaethau Islam yn dweud wrth Fwslimiaid sut i ymddwyn a pha arferion i'w dilyn, megis gweddio bum gwaith y dydd, mynd ar Hajj, rhoi i elusennau ac ati, ac mae hyn oll oherwydd y gred mai Allah yw'r unig Dduw a bod angen iddyn nhw ufuddhau i ewyllys Duw a gwneud yr hyn a ddisgwylir ohonyn nhw. Mae eu cred yn Nuw yn gryf iawn.


'Datguddiad' gan Dduw oedd y man cychwyn a 'dangos ufudd-dod' yw'r hyn mae Mwslimiaid yn ei wneud gan eu bod yn credu bod Duw am iddyn nhw ymddwyn yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y Qur'an (dysgeidiaethau)'.

Ymchwilio | Beth mae ymrwymiad yn ei olygu yn Islam?

Wrth ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol sy'n ymwneud ag ymrwymiad, darparwyd ystod o adnoddau i'r dysgwyr i gynorthwyo â gweithgaredd 'ffair wybodaeth' er mwyn cael gwybodaeth am agwedd benodol ar Islam (e.e. Gweddio, Zakat, Ramadan, Hajj) ac ar ôl casglu'r deunyddiau, roedden nhw'n cynnal gweithgareddau penodol yna'n eu rhannu â dysgwyr eraill.

Ar gyfer yr ymchwiliad hwn, dewisodd Jack archwilio Hajj a defnyddiodd yr athro Ddeunyddiau Asesu Dewisol ACCAC i gefnogi'r gwaith hwn. Fel sy'n ofynnol gan y deunyddiau asesu dewisol, roedd y dysgwyr yn ystyried dyfyniadau o'r Qur'an er mwyn archwilio agweddau penodol ar y Qur'an a phan ofynnwyd iddyn nhw gynnig sylwadau ar bleserau a heriau Hajj, mae Jack yn nodi pwysigrwydd 'dilyn yn ôl troed proffwydi megis Ibrahim, Isma'il a Muhammad. Mae'r proffwydi hyn yn enghreifftiau da iawn o bobl a wnaeth ufuddhau i ewyllys Allah . . . pan fydd Mwslimiaid yn mynd ar Hajj nid dim ond gwyliau ydyw, ond maen nhw'n cofio negeseuon pwysig

o'r Qur'an ac yn ceisio gwneud yr un fath'. Mae'r sylw hwn yn enwedig yn dangos ei fod yn ystyried gwybodaeth o'r Qur'an ac o'i waith ymchwil personol ei hun a'i fod yn *dod i gasgliadau rhesymegol* (nodwedd o Lefel 7) o hyn ac o'i waith blaenorol ynghylch 'ufudd-dod'. Wrth archwilio'r pleserau a'r heriau, mae'n ystyried taith yr Hajj o safbwyntiau crefyddol cadarnhaol a negyddol. Mae'n *esbonio ac yn cyfiawnhau rhesymau am safbwyntiau* penodol (nodwedd o Lefel 7) sy'n ymwneud â phleserau a heriau'r Hajj hefyd.



Mae Mwslimiaid yn credu bod yr Hajj yn destun llawenydd gan eu bod yn dilyn gorchymyn Allah drwy deithio i Makkah a dilyn yn ôl troed proffwydi megis Ibrahim, Isma'il a Muhammad. Mae'r proffwydi hyn yn enghreifftiau da iawn o bobl a wnaeth ufuddhau i ewyllys Allah, e.e. bu bron i Ibrahim aberthu ei fab oherwydd yr hyn a ddywedodd Allah wrtho, a phan fydd Mwslimiaid yn mynd ar Hajj nid dim ond gwyliau ydyw, ond maen nhw'n cofio negeseuon pwysig o'r Qur'an ac yn ceisio gwneud yr un fath. Mae llawer o Fwslimiaid yn wynebu'r her o aberthu cyn iddyn fynd gan byddan wedi treulio llawer o flynyddoedd yn cynilo arian ac yn gwneud heb bethau weithiau er mwyn talu am y daith hon, ond maen nhw'n credu ei fod yn ddyletswydd arnyn nhw a bod yr aberth yn werth chweil gan eu bod yn dilyn gorchymyn Duw . . .

Mae'n siŵr ei bod yn hyfryd gweld pawb yn cael eu trin yn gyfartal, drwy wisgo'r un dillad a thrwy wneud yr un gweithrediadau. Mae'n siŵr bod gweddiâu, gweithrediadau dathliadau (Eid) yn eithaf heriol oherwydd yr holl waith cerdded ac ati, ond mae'n rhaid bod yna deimlad gwych o agosrwydd . . .

Ar Hajj, mae Mwslimiaid yn gwrthod drwg drwy daflu cerrig at y pileri ac mae'n siŵr bod hyn yn ffordd wych o'u helpu i gofio i osgoi temtasiwn pan fyddan nhw'n mynd gartref a chofio'r modd maen nhw wedi ufuddhau i Allah . . .

Ymchwilio | Beth sy'n eich cymell ac yn llywio eich bywyd?

Gofynnwyd i'r dysgwyr baratoi cwestiynau yna cyfweld aelod o'r dosbarth nad oedden nhw'n ei adnabod yn dda. Pan ymatebodd Jack (drwy ysgrifenedigol) i'r cwestiynau a ofynnwyd, mae'n dangos ei fod yn deall safbwyntiau Mwslimiaid ac wrth feddwl am yr hyn sy'n ei gymell ac yn llywio ei fywyd, mae'n nodi rhai o oblygiadau ei gredoau a'i weithrediadau ei hun. Pan mae'n dweud 'Rwy'n credu bod gwneud y pethau hyn yn haws i Fwslimiaid nag ydyw i mi oherwydd bod ganddyn nhw reolau penodol i'w dilyn a gweithredoedd sy'n eu helpu i gofio bod rhai gweithredoedd yn dda a bod rhai gweithredoedd yn ddrwg – rhaid i mi benderfynu drosof fy hun'. Mae hyn yn dangos yn gyffredinol ei fod wedi ystyried goblygiadau ei gredoau a'i gweithrediadau ei hun, ac wedi *cymharu'r rhain gyda rhai pobl eraill ac wedi dod i gasgliadau cytbwys* (nodwedd o Lefel 7).



Mae Mwslimiaid yn cael eu cymell i ufuddhau i ewyllys Allah sy'n cael ei hegluro yn y Qur'an. Mae eu llyfr sanctaidd yn eu dysgu i ufuddhau i Bum Piler Islam a dilyn rheolau penodol ynghylch bwyd, gwisg, ymddygiad ac ati. Mae eu cred yn Islam yn llywio pob agwedd ar eu bywydau sy'n golygu bod crefydd yn rhywbeth maen nhw'n meddwl amdano o hyd yn y gobaith y byddan nhw'n plesio Duw.

Nid oes gen i grefydd, ond rwy'n credu y gallwn i newid fy mywyd er gwell drwy beidio â bod mor swil a bod yn fwy parod i siarad yn y dosbarth.

Rwy'n gwybod bod gwyllo Plant mewn Angen bob blwyddyn yn fy newid i oherwydd rwy'n ceisio meddwl am ddiodefaint pobl eraill ac eleni, rwyf am feddwl am ffyrdd gallaf i a'm ffrindiau godi arian.

Rwy'n credu gallwn i ddod yn fwy ymwybodol o gydraddoldeb, yr angen i wrthod drwg a'r angen i mi aberthu, drwy fod yn ddiolchgar, meddwl mwy am bobl eraill a sut maen nhw'n teimlo a thrwy ddweud diolch bob amser. Rwy'n credu bod gwneud y pethau hyn yn haws i Fwslimiaid nag ydyw i mi oherwydd bod ganddyn nhw reolau penodol i'w dilyn a gweithredoedd sy'n eu helpu i gofio bod rhai gweithredoedd yn dda a bod rhai gweithredoedd yn ddrwg - rhaid i mi benderfynu drosaf fy hun.

Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Jack yn dangos ei fod yn gallu defnyddio'i ddealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol i ddangos ei ddealltwriaeth o'r agweddau pwysicaf ar Islam. Mae'n *cymhwyso'r cysyniad crefyddol o 'ddatguddiad' i amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion* (nodwedd o Lefel 7) trwy grynhoi'r casgliadau a dynnwyd o'r diagram corryn. Mae hefyd yn ymchwilio cysyniad arall, sef ufudd-dod. Wrth iddo ystyried y cwestiwn sylfaenol 'Beth mae ymrwymiad yn ei olygu yn Islam?', mae'n defnyddio ei ddealltwriaeth o'r cysyniadau datguddiad ac ufudd-dod i ddechrau *dod i gasgliadau cytbwys* (nodwedd o Lefel 7). Roedd athro Jack yn meddwl ei fod wedi llwyddo *cymhwyso ystod eang o gysyniadau crefyddol* (nodwedd o Lefel 7). Roedd archwiliad Jack o ymatebion personol yn eithaf craff ac roedd yn gallu gwneud cymariaethau rhwng ei weithrediadau a'i farn ei hun a rhai pobl eraill.

Y ffordd ymlaen

Er mwyn i'w sgiliau ddangos nodweddion Lefel 8 ac uwch, bydd angen iddo ystyried ystod o bosibiliadau a'u gwerthuso. Yn ei astudiaeth o Islam gellid gwneud hyn drwy ystyried ymatebion Mwslimiaid unigol i gwestiynau sylfaenol penodol yna gwerthuso a chyfiawnhau pam mae ganddyn nhw gredoau gwahanol neu pam maen nhw'n gwneud gweithrediadau gwahanol. Gellid cynnig cyfiawnhad drwy ddefnyddio darnau o'r Qur'an a Hadith i archwilio'r rhesymau am wahaniaethau diwylliannol yn Islam.

I ddangos Lefel 8, byddai angen cynyddu nifer y cysyniadau sy'n cael eu harchwilio a byddai'r dysgwr yn gallu dangos dealltwriaeth ddyfnach drwy gyfeirio at amryw ganghennau Islam – Sunni, Shiite neu Sufi. Byddai defnyddio astudiaethau achos unigol o Fwslimiaid sy'n arfer y grefydd yn ei dro yn gymorth i ddatblygu sgiliau eraill yn Lefel 8, e.e. *gwerthuso'r agweddau amrywiol ar grefydd ac esbonio sut y mae'r rhain yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas*. Er mwyn dangos y sgiliau sydd eu hangen yn Lefel 8, byddai angen i Jack ystyried rhai o'r cysyniadau ac egluro sut mae'n ymateb i'r cysyniadau hyn a chymharu ei ymatebion ag ymatebion pobl eraill. Gellid gwneud hyn drwy nodi beth yw ystyr 'ufudd-dod' (neu 'ymrwymiad'⁸), barn, aberth, iachawdwriaeth ac ati iddo fe. Yna gallai gynnal arolwg yn y dosbarth a chymharu sut mae aelodau eraill y dosbarth yn ymateb i'r cysyniadau hyn a sut maen nhw'n cyfiawnhau eu barn.

⁸ Efallai bod 'ymrwymiad' yn derm mwy dealladwy i rywun nad yw'n Fwslim.

Cyfnod Allweddol 2

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid cyflawni hyn trwy **ryngberthynas tri sgil craidd** y pwnc.

- **Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol** – cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd yw cwestiynau sylfaenol. Mae ganddynt ddyfnder a dwyster sy'n sail i unrhyw agwedd ar astudiaeth mewn addysg grefyddol.
- **Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol** – mae hyn yn cynnwys archwilio storïau crefyddol, testunau cysegredig, ffordd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n darparu mewnwelediad i'r cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach.
- **Mynegi ymatebion personol** – mae hyn yn cynnwys cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau â phrofiadau'r disgyblion eu hunain a chaniatáu datblygu ymatebion personol i greddau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) a chwestiynau sylfaenol, a'u gwerthuso.

Mae'r sgiliau craidd hyn yn cyd-blethu a dylid cymhwyso'r tri ohonynt yn briodol i'r ystod a astudir.

Ystod

Dylai disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau drwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau canlynol i'w hastudio. Ni ddylid ystyried y rhain fel pynciau ar wahân ond yn hytrach fel meysydd astudio sydd wedi'u rhyng-gysylltu ac sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ystyried, archwilio, a mynegi syniadau ac ymatebion. Yn ystod cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod wedi cael ei hastudio.

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau trwy ymdrin â:

Sgiliau

Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- archwilio ystod o dystiolaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol, gan gynnwys disgyblaethau eraill, er mwyn ystyried y materion sy'n codi
- defnyddio tystiolaeth o ystod o ffynonellau yn effeithiol er mwyn cyflwyno ac ategu dadleuon a barnau
- datblygu esboniadau eraill ac awgrymu posibiliadau newydd
- gwneud ymchwiliadau gan gadw meddwl agored a bod yn barod i dderbyn her yn dilyn gwybodaeth neu dystiolaeth newydd.

Y byd

- **dechreuad a phwrpas bywyd** – sut y mae dehongliadau o ddechreuad y byd a bywyd yn dylanwadu ar farn pobl, e.e. *ystyr a gwerthoedd*
- **y byd naturiol a phethau byw** – sut y mae crefyddau yn dangos pryder a chyfrifoldeb, e.e. *stiwardiaeth; cynaliadwyedd*

Profiad dynol

- **hunaniaeth ddynol** – y ffyrdd y mae crefyddau yn deall bodolaeth ddynol, e.e. *delwedd o Dduw; unigrywiaeth, ysbrydolrwydd*



Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:


- alw i gof, disgrifio a dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol
- ymchwilio a gwneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol
- disgrifio a dechrau esbonio effaith crefydd ar fywydau credinwyr
- nodi'r nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws crefyddau
- adnabod a dechrau dehongli'r haenau o ystyr/symbolaeth o fewn storïau, defodau, celf, dawnys a cherddoriaeth crefyddol.

Mynegi ymatebion personol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- fynegi a dechrau cyfiawnhau eu teimladau a'u barnau eu hunain mewn gwahanol ffyrdd, e.e. *ar lafar, yn ysgrifenedig, a thrwy'r celfyddydau creadigol*
- dangos sut y mae'r hyn y maent wedi'i ddysgu wedi cael effaith ar eu safbwyntiau/syniadau
- ystyried, gwerthfawrogi, parchu ac empatheddio â safbwyntiau eraill
- cydnabod, archwilio a myfyrio ar ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio ystod o iaith grefyddol yn addas
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i gael gwybodaeth a throsglwyddo cysyniadau crefyddol.



- **ystyr a phwrpas bywyd** – sut y mae syniadau, gwerthoedd a chredoau crefyddol yn dylanwadu ar werthoedd/ymatebion pobl i fywyd a marwolaeth
- **perthyn** – sut y mae credinwyr lleol, drwy ddathliadau cartref/cymunedol, yn rhannu ymdeimlad o hunaniaeth ac ymrwymiad 
- **awdurdod a dylanwad** – sut y mae gwahanol fathau o awdurdod, megis testunau cysegredig, arweinwyr a chodau crefyddol, yn arwain ac yn dylanwadu ar fywydau pobl
- **perthnasoedd a chyfrifoldeb** – sut y mae pwysigrwydd perthnasoedd personol a chyfrifoldeb tuag at eraill yn cael ei arddangos drwy grefyddau

- **taith bywyd** – sut y caiff gwahanol gyfnodau bywyd a digwyddiadau naturiol eu cydnabod, a sut yr ymatebir iddynt a'u dathlu mewn crefydd, e.e. *defodau newid byd; profiadau heriol ac ysbrydoledig*

Chwilio am ystyr

- **anfaterol/ysbrydol** – sut y mae crefyddau yn dangos (drwy storïau, dathliadau a gweithgareddau) bod bywyd yn rhywbeth ysbrydol (mwy na rhywbeth materol/corfforol)
- **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – sut y caiff profiad crefyddol/ysbrydol ei ddatblygu a'i ddeall, e.e. *perthynas â Duw; ffordd o fyw, ymrwymiad, addoliad, gweddi, cerddoriaeth, dawnys, myfyrdod ac ympryd.*

Cyfnod Allweddol 3

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid cyflawni hyn trwy **ryngberthynas tri sgil craidd** y pwnc.

- **Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol** – cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd yw cwestiynau sylfaenol. Mae ganddynt ddyfnder a dwyster sy'n sail i unrhyw agwedd ar astudiaeth mewn addysg grefyddol.
- **Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol** – mae hyn yn cynnwys archwilio storïau crefyddol, testunau cysegredig, ffordd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n darparu mewnwelediad i'r cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach.
- **Mynegi ymatebion personol** – mae hyn yn cynnwys cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau â phrofiadau'r disgyblion eu hunain a chaniatáu datblygu ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) a chwestiynau sylfaenol, a'u gwerthuso.

Mae'r sgiliau craidd hyn yn cyd-blethu a dylid cymhwysu'r tri ohonynt yn briodol i'r ystod a astudir.

Ystod

Dylai disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau drwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau canlynol i'w hastudio. Ni ddylid ystyried y rhain fel pynciau ar wahân ond yn hytrach fel meysydd astudio sydd wedi'u rhyng-gysylltu ac sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ystyried, archwilio, a mynegi syniadau ac ymatebion. O fewn cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod wedi cael ei hastudio.

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau trwy ymdrin â:

Y byd

- **dechreuad a phwrpas bywyd** – pam y mae crefyddau yn gwerthfawrogi pethau byw ac yn mabwysiadu safbwyntiau cadarnhaol am y byd naturiol: drwy ddatleuon cyfoes ynglŷn â tharddiad, diben a sancteiddrwydd bywyd, a'r berthynas rhwng y byd naturiol, bodau dynol a Duw

Sgiliau

Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- tynnu ar eu profiadau eu hunain ac ar amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol gwybodus eraill, gan gynnwys disgyblaethau eraill, er mwyn casglu tystiolaeth a datblygu dadleuon priodol
- defnyddio technegau datrys problemau, meddwl beirniadol, creadigol a greddfodol i archwilio rhagdybiaethau, posibiliadau/esboniadau
- ffurfio dadleuon a chyfiawnhau safbwyntiau gan gydnabod bod casgliadau yn rhannol yn unig, yn amhendant ac yn agored i ddehongliadau gwahanol.

- **y byd naturiol a phethau byw** – pam y mae crefyddau unigol yn cydnabod pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb am y byd naturiol a phethau byw a rhoi eu credoau ar waith trwy weithredu, e.e. *bywyd fel rhodd; cynaliadwyedd*


Profiad dynol

- **hunaniaeth ddynol** – pam y mae crefyddau o'r farn bod gan fodau dynol statws unigryw ymysg pethau byw a goblygiadau'r grêd hon ar ymddygiad dynol, gwerthoedd, rhyddid, cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth, e.e. *delwedd o Dduw*
- **ystyr a phwrpas bywyd** – sut a pham yr ystyrir bod crefydd yn darparu mewnwelediad i gwestiynau ynghylch gwirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth, e.e. *bywyd/marwolaeth/bywyd tragwyddol; da/drwg/dioddefaint/gobaith, ac ati*
- **perthyn** – sut a pham y mae unigolion, cymunedau a chymdeithasau lleol yn mynegi hunaniaeth grefyddol ac yn arddangos ymrwymiad drwy addoliad, dathliad, ffordd o fyw, ac ati



Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- alw i gof, disgrifio ac esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol a ymchwilir
- gwneud ac ymchwilio cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol er mwyn dangos dealltwriaeth o ystod o syniadau/cysyniadau crefyddol
- disgrifio ac esbonio'r nodweddion tebyg a gwahanol o fewn ac ar draws crefyddau
- esbonio effaith crefydd ar fywydau unigolion, cymunedau lleol a'r gymdeithas ehangach, gan ddefnyddio ystod o ddehongliadau 
- dadansoddi a dehongli'r haenau o ystyr/symbolaeth o fewn storïau, defodau, celf, dawns a cherddoriaeth grefyddol.

Mynegi ymatebion personol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- gyfleu syniadau a chysyniadau crefyddol gan ddefnyddio dadl resymegol, barn personol a syniadau mewn amryw o ffyrdd creadigol, e.e. *ar lafar, yn ysgrifenedig, a thrwy'r celfyddydau creadigol*
- esbonio sut y gallai'r hyn y maent wedi'i ddysgu am brofiad crefyddol/ysbrydol ac am wneud penderfyniadau moesol fod yn berthnasol i'w bywyd eu hunain a bywydau pobl eraill
- gwerthfawrogi, parchu, empatheiddio â safbwyntiau eraill a'u gwerthuso, gan gydnabod y nodweddion tebyg a gwahanol rhyngddynt â'u safbwyntiau hwy eu hunain
- cydnabod, archwilio a myfyrio ar ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio ystod o iaith grefyddol yn addas
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i gael gwybodaeth a throsglwyddo cysyniadau crefyddol.

- **awdurdod a dylanwad** – sut y mae awdurdod crefyddol yn cyfleu syniadau ynglŷn â datguddiad, doethineb, gwirionedd/dehongliad, a pham y mae hyn yn dylanwadu ar gredinwyr, e.e. *drwy destunau cysegredig, sylfaenwyr crefyddol, ac arweinwyr hanesyddol a chyfoes*
- **perthnasoedd a chyfrifoldeb** – sut y mae crefyddau yn arddangos rheolau ar gyfer byw, cynghori ynghylch gwneud penderfyniadau moesol anodd, argymell ffyrdd o ddatblygu a chynnal perthynas a darparu rhesymau pam y mae'r rhain yn bwysig, e.e. *da/drwg; cyfiawnder/cydraddoldeb; goddefgarwch/parch; gwrthdrawiad/cymod*
- **taith bywyd** – sut a pham y mae pobl grefyddol yn derbyn gwahanol swyddogaethau, cyfrifoldebau ac ymrwymadau ar wahanol gyfnodau bywyd, e.e. *bod yn oedolyn/rhiant/hunanymwadu; cymryd rhan mewn pererindod, ac ati*

Chwilio am ystyr

- **anfaterol/ysbrydol** – sut y mae pobl yn archwilio ac yn mynegi materion, syniadau a phrofiadau o natur tra-rhagorol/ysbrydol a pham y mae'r agwedd ysbrydol hon ar fywyd yn bwysig iddynt hwy, e.e. *natur Duw/lyr enaid; profiad crefyddol/dimensiynau ysbrydol y profiad dynol a gwirionedd/lystyr/dehongliad*
- **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – sut a pham y mae pobl yn datblygu, dehongli ac yn gweithredu ar eu profiad crefyddol/ysbrydol e.e. *perthynas â Duw ac ymrwymiad i Dduw; ffordd o fyw/aberth; effaith crefydd ymrwymiad crefyddol ar unigolion, cymunedau a chymdeithas; hunaniaeth/amrywiaeth o fewn ac ar draws crefydd.*

Atodiad 2 Disgrifiadau lefel enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, dylai perfformiad y mwyafrif mawr o'r disgyblion ddod o fewn ystod Lefelau 2 i 5, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 3 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddisgyblion galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.

Dylid darllen pob datganiad o fewn y lefelau gan eu bod yn berthnasol i Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a ddangosir o fewn y maes llafur cytûn lleol penodol.

Lefel 1

Bydd y disgyblion yn siarad am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd. Byddant yn galw i gof ac yn ymateb i rai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt. Byddant yn ymwybodol i raddau fod yr agweddau hyn ar grefydd yn arbennig. Byddant yn cydnabod bod eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau yn gallu bod yn debyg neu'n wahanol i rai pobl eraill. Byddant yn defnyddio geirfa grefyddol syml mewn modd addas i fynegi eu syniadau ar adegau.

Lefel 2

Bydd y disgyblion yn gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, ac yn awgrymu rhai atebion. Byddant yn galw i gof ac yn cyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt. Byddant yn awgrymu, mewn termau syml, pam y mae'r agweddau hyn ar grefydd yn bwysig i rai pobl. Byddant yn siarad mewn termau syml am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain a rhai pobl eraill. Byddant yn defnyddio geirfa grefyddol syml yn addas.

Lefel 3

Bydd y disgyblion yn trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, gan gynnig eu barn eu hunain. Byddant yn disgrifio rhai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt. Byddant yn disgrifio sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Byddant yn disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain, ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Byddant yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol, ac yn defnyddio geirfa grefyddol yn addas.

Lefel 4

Bydd y disgyblion yn trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Byddant yn disgrifio ac yn dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir iddynt. Byddant yn rhoi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd y bydd yr agweddau hyn yn effeithio ar fywydau credinwyr ac yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau. Byddant yn esbonio mewn termau syml sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn wahanol i rai pobl eraill. Byddant yn adnabod rhai symbolau crefyddol ac yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas.

Lefel 5

Bydd y disgyblion yn mynegi ac yn cyfiawnhau syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol, yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain. Byddant yn gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion a astudir, gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws crefyddau. Byddant yn esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Byddant yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Lefel 6

Bydd y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodus a'u profiadau eu hunain i gyflwyno tystiolaeth a datblygu ymatebion priodol i gwestiynau sylfaenol. Byddant yn defnyddio eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yr ymchwilir iddynt i gryfhau eu dealltwriaeth o grefydd ac i esbonio gwahanol safbwyntiau crefyddol. Byddant yn esbonio'r berthynas rhwng eu credoau a'u gweithrediadau eu hunain. Byddant hefyd yn esbonio'r berthynas rhwng credoau a gweithrediadau pobl eraill. Byddant yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o symbolaeth ac iaith symbolaidd.

Lefel 7

Bydd y disgyblion yn ystyried cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol o ystod o safbwyntiau crefyddol ac yn dechrau dod i gasgliadau rhesymegol. Byddant yn cymhwyso ystod eang o gysyniadau crefyddol i amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion. Byddant yn esbonio a chyfiawnhau y rhesymau dros yr ystod o safbwyntiau sydd gan bobl grefyddol. Byddant yn ystyried goblygiadau eu credoau a'u gweithrediadau eu hunain, ac yn cymharu'r rhain gyda rhai pobl eraill ac yn dod i gasgliadau cytbwys. Byddant yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn gallu esbonio ystyr symbolaidd gwrthrychau, gweithrediadau a/neu iaith grefyddol.

Lefel 8

Bydd y disgyblion yn ystyried cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol, yn gwerthuso ystod o bosibiliadau ac yn dod i gasgliadau rhesymegol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd. Byddant yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o gysyniadau crefyddol, gan gynnwys safbwyntiau amrywiol ar gredoau, gwerthoedd a thraddodiadau o fewn y crefyddau a astudir. Byddant yn gwerthuso'r agweddau amrywiol ar grefydd ac yn esbonio sut y mae'r rhain yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas. Byddant yn ymchwilio i'r cysyniadau crefyddol a astudir, yn gwerthuso eu safbwyntiau eu hunain ac eraill trwy ddadleuon rhesymegol a thystiolaeth. Byddant yn defnyddio ystod eang o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth ddatblygedig o iaith symbolaidd.

Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendiant yw'r atebion yn aml. Byddant yn dadansoddi ac yn cynnig rhesymau dros y gwahanol safbwyntiau a geir yn ymwneud a'r credoau, gwerthoedd a thraddodiadau'r crefyddau a astudir, gan gydnabod y gwahaniaethau rhwng y crefyddau a gwerthfawrogi'r tyndra rhwng undod ac amlblwyfaeth o fewn pob crefydd. Bydd ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ymddygiad a chredoau ymlynwyr o fewn ystod o systemau ffydd. O ran y cysyniadau crefyddol a moesol a astudir, byddant yn mynegi barn, sydd wedi'i hystyried yn llawn, ar safbwyntiau pobl eraill a hynny'n seiliedig ar ymchwiliad manwl. Byddant yn defnyddio ystod helaeth o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth ddatblygedig iawn o iaith symbolaidd.

Adnoddau defnyddiol

Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 2 a 3 (ACCAC, 2004)

The Teacher's Toolkit: Raise Classroom Achievement with Strategies for Every Learner gan Paul Ginnis (Crown House Publishing, 2001)

Cyfes Crisial gan Gill Vaisey (CAA, 2002)

Cwestiynau Pwysig Mewn Crefydd gan Gavin a Fiona Craigen (UWIC Press, 2008)

Crefyddau'r Byd Heddiw (Canolfan Genedlaethol Cymru ar gyfer Addysg Grefyddol, 2008)

Ffydd, Bywyd, Sialens: Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 3 DVD (Tinopolis, 2010)

Philosophy for Children

Society for Advancing Philosophical Enquiry and Reflection in Education (SAPERRE)

www.sapere.org.uk

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl plant a phobl ifanc, ymarferwyr a chyfranogwyr eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r canllawiau ychwanegol hyn ac *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 – Negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu* gan gynnwys:

Gavin Craigen	Gwasanaeth Cenfogi'r Cwricwlwm, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Sir Conwy
Rhian Davies	Ysgol Gyfun Brenin Harri'r VIII, Sir Fynyw
Kate Dowell	Ysgol Gellifor, Sir Ddinbych
Ellyw Evans	Ysgol Penybryn, Gwynedd
Liz Harewood	Ysgol y Wern, Caerdydd
Bethan James	Cwmni Cynnal, Gwynedd ac Ynys Môn
Olwen Jones	Ysgol Tregib, Sir Caerfyrddin
Elen Mason	Ysgol Penybryn, Gwynedd
Kathy Mathias	Ysgol Gynradd Twyn, Caerffili
Michael Morris	Ysgol Gyfun Llandbedr Pont Steffan, Ceredigion
Helen Pritchard	Ysgol Llanvihangel Cwmcorney, Sir Fynyw
Menna Pugh	Ysgol Penybryn, Gwynedd
Rachel Thomas	Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili
Emma Davies	Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen
Falmai Ellis	Ysgol Edmwnd Prys, Gwynedd
Catherine Evans	Ysgol y Castell, Caerffili
Dr Amjad Hussain	Darlithwyr, Coleg y Drindod, Caerfyrddin
Einir Jones	Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam
Sarah Randell	Ysgol Brynhyfryd, Sir Ddinbych
Gemma Waring	Ysgol Uwchradd Prestatyn, Sir Ddinbych
Llinos Williams	Ysgol Dyffryn Amman, Sir Gaerfyrddin

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r disgyblion a'r rhieni/warcheidwaid hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd â hawlfraint yn y canllawiau hyn.

Culture and Sport Glasgow (Museums) am Salvador Dali *Christ of St John of the Cross* (prif glawr)

Olve Utne (ar y ddau glawr a'r canllawiau ychwanegol tudalen 43)

www.artdirectors.co.uk (prif ganllawiau tudalen 53)

World Religions Photo Library (prif ganllawiau tudalen 53)

ESA/Hubble (clawr y canllawiau ychwanegol)

National Gallery Picture Library am Piero della Francesca *The Baptism of Christ* (canllawiau ychwanegol tudalen 11)

Wikimedia-Commons User Túrelío, Creative Commons BY-SA 2.0-de (canllawiau ychwanegol tudalen 68)

Sylwer

Mae Adran 101(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi bod addysg grefyddol erbyn hyn yn un o'r gofynion yn y cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl yn yr ysgol. Mae'r awdurdod addysg, y corff llywodraethu a'r pennaeth hefyd o dan ddyletswydd i sicrhau bod addysg grefyddol ym mhob ysgol wirfoddol, ysgol gymunedol ac ysgol sefydledig yn cael ei darparu yn unol ag adran 101(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002. Wrth ddarparu'r addysg grefyddol sy'n ofynnol yn y cwricwlwm sylfaenol, caiff athrawon addysgu am grefydd gan gynnwys credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, ymrwymiad credinwyr a'r effaith ar fywydau credinwyr. Mae'r agweddau hyn yn ofynnol mewn meysydd llafur y cytûn lleol ac yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Bydd hyn yn cynnwys ymhlith pethau eraill:

- astudio llyfrau sanctaidd a'u hystyr
- astudio'r amrediad o gredoau ac arferion sy'n perthyn i grefyddau ac enwadau gwahanol
- ymweld â chredinwyr a/neu eu gwahodd i'r ystafell ddosbarth i rannu eu profiadau o sut mae crefydd wedi effeithio ar eu bywydau ac i esbonio'u hymroddiad i'w crefydd/credo, ac ati.

Wrth weithredu'r maes llafur cytûn lleol a'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, mae angen i athrawon annog y dysgwyr i ymchwilio mewn modd gwrthrychol, cytbwys a heb duedd bersonol. I ategu'r cydbwysedd a'r gwrthrychedd hwn mae'n fuddiol os gall y dysgwyr, wrth gyfeirio at gredoau crefyddol neu anghrefyddol, ddefnyddio gosodiadau fel 'Mae rhai Mwslimiaid yn credu . . . oherwydd . . .', er bod eraill yn credu . . . oherwydd . . .'. Dyma ymgais i sicrhau gwrthrychedd ac ymwybyddiaeth bod yna debygrwydd a gwahaniaethau o fewn crefyddau a disgyblaethau eraill ac ar eu traws.

Pan wahoddir credinwyr a/neu bartïon eraill sydd â diddordeb i'r ystafell ddosbarth, cyfrifoldeb yr athro/athrawes yw sicrhau bod gwrthrychedd yn parhau, ac os yw'r credinwyr wedi'u gwahodd oherwydd safbwynt penodol, cyfrifoldeb yr athro/athrawes yw sicrhau bod y negeseuon yn cael eu cydbwysu drwy roi rhagor o ysgogiad ac amrywiaeth o safbwyntiau.

Mae'r enghreifftiau a ddefnyddir yn yr astudiaethau achos yn awgrymiadau o'r math o weithgareddau gellid eu gwneud. Yr ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau addasrwydd adnoddau a cheisio unrhyw drwyddedau safle fydd eu hangen i ddefnyddio deunyddiau sydd ar gael yn fasnachol.

Mae'n arfer da wrth ddefnyddio deunyddiau a gynhyrchwyd yn fasnachol a allai beri tramgwydd i ofyn i rieni gwblhau ffurflen caniatâd rhieni.

Cyn ymweld ag unrhyw wefan gyda'r dysgwyr, mae'n hanfodol bod yr ymarferydd yn gwirio'r wefan ymlaen llaw. Dylid gwneud hyn er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth/deunyddiau y bwriedir eu defnyddio yn:

- cefnogi gwaith plant a phobl ifanc
- yn berthnasol i'r gwaith a archwilir
- yn addas i blant a phobl ifanc.

Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys neu ddibynadwyedd y gwefannau na'r cyrff a nodir. Ni ddylai'r ffaith eu bod yn cael eu cynnwys yma olygu ein bod yn eu cefnogi.